



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Strategaeth Mannau Agored Merthyr Tudful

Mehefin 2016

Miss J. Jones
Pennaeth Cynllunio
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Uned 5
Parc Busnes Triongl
Pentre-bach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ

Cynnwys

Adran	Tudalen
1.0	Cyflwyniad
	Diben
	Beth yw Man Agored a Pham ei fod yn Bwysig?
	Themâu a Nodau Allweddol
	Dull ar gyfer Nodi ac Asesu Mannau Agored
2.0	Y Ddarpariaeth, y Safonau a'r Galw Presennol
	Y Cyd-destun Hanesyddol
	Trosolwg o Ddarpariaeth Mannau Agored
	Trosolwg o'r Mathau o Fannau Agored
3.0	Trosolwg o Ddadansoddiad o'r Wardiau
4.0	Gweithredu a'r Ffordd Ymlaen
	Cyflawni
	Colli Mannau Agored
	Y Berthynas rhwng y Strategaeth Mannau Agored a Chynlluniau Gweithredu
	Atodiad 1 – Canllawiau'r Comisiwn dros Bensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig
	Atodiad 2 – Nodi Mannau Agored
	Atodiad 3 – Pro Fforma Safle
	Atodiad 3b – Pro Fforma Safle – Cymraeg
	Atodiad 4 – Enghraifft o Fap Hygyrchedd
	Atodiad 5 – Trosolwg o Fannau Agored ym Mhob Ward
	Atodiad 6 – Sylwadau'r Ymgynghoriad ac Ymateb y Cyngor

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Mae mannau agored sydd wedi'u dylunio'n dda ac yn cael eu cynnal yn dda yn gwneud cyfraniad sylweddol at ansawdd bywyd. Mewn cydnabyddiaeth o hyn, paratowyd Strategaeth Mannau Agored Merthyr Tudful er mwyn darparu fframwaith tymor hir i ddiogelu a datblygu rhwydwaith o fannau agored o ansawdd uchel sy'n sicrhau amrywiaeth o fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- 1.2 Paratowyd y Strategaeth gan adran Cynllunio Trefol y Cyngor yn unol â pholisi cynllunio Cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 8, 2016) a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009). Yn absenoldeb canllawiau penodol manwl i Gymru ar baratoi strategaethau o'r fath, dilynwyd '*Open space strategies – Best practice guidance*' a baratowyd gan y Comisiwn dros Bensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig. Yn benodol, mabwysiadwyd proses chwe cham y Comisiwn fel dull addas i baratoi'r Strategaeth (gweler **Atodiad 1**).
- 1.3 Mae'r Strategaeth yn nodi'r gwahanol fathau o fannau agored sy'n bwysig yn lleol ac yn gosod allan safonau maint, ansawdd a safonau mynediad wedi'u deillio'n lleol. Canfuwyd lefel ddarpariaeth bresennol y mannau agored hyn sy'n bwysig yn lleol drwy gasglu tystiolaeth ar sail arolygon safle helaeth ac archwiliadau. Gwneir argymhellion ar gyfer gwella maint, ansawdd a hygyrchedd mannau agored drwy Gynlluniau Gweithredu cysylltiedig, a baratowyd ar gyfer pob ward yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r argymhellion hyn yn seiliedig ar themâu a nodau allweddol y Strategaeth.

Diben

- 1.4 Caiff y Strategaeth ei defnyddio i gyfarwyddo a helpu i ddehongli polisiau Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor sy'n ymwneud â darparu mannau agored mewn datblygiadau newydd a diogelu mannau agored presennol. Caiff ei ddefnyddio hefyd i gyfarwyddo gwaith rheoli safle ar fannau agored, ac fel dull o gyfeirio cyllid at safleoedd priodol lle mae modd gwneud gwelliannau i faint, ansawdd a hygyrchedd mannau agored. Bydd y Strategaeth yn sicrhau y caiff dull cydlynol ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful am fannau agored a diogelu a datblygu rhwydwaith y Fwrdeistref Sirol o fannau agored.

Beth yw Man Agored a Pham ei Fod yn Bwysig?

- 1.5 Caiff man agored ei ddiffinio yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel tir sydd wedi'i osod allan fel gardd gyhoeddus, neu a ddefnyddir at ddibenion hamdden cyhoeddus, neu tir sy'n fynwent nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach. Mae

amrywiaeth o ffurfiau i fannau agored, ond at ddiben y Strategaeth hon, pennwyd wyth o fannau agored sy'n bwysig yn lleol, sef: rhandiroedd a mannau tyfu cymunedol, mannau gwyrdd amwynder, mannau i blant a phobl ifanc, mannau dinesig, coridorau hamdden gwyrdd, mannau gwyrdd amlswyddogaethol, mannau gwyrdd naturiol / lled-naturiol, ardaloedd a chaeau chwaraeon awyr agored, a pharciau a gerddi cyhoeddus.

- 1.6 Yn y blynyddoedd diwethaf, bu cydnabyddiaeth yn rhwngwladol a chenedlaethol o bwysigrwydd parhaus mannau agored i iechyd a lles y boblogaeth. Nid oes yn rhaid i'r mannau hyn bob amser fod yn 'wyrdd', ond rhaid iddynt roi'r cyfle i bobl leol fod yn weithgar a rhoi'r dewis iddynt gael mynediad at fannau o'r fath.
- 1.7 Gwelwyd bod gwerth mannau agored yn fwy na gwerth hamdden, a bod iddynt fanteision clir i iechyd cyffredinol (gan gynnwys gordewdra), iechyd meddwl, adfywio trefol, potensial economaidd twristiaeth, gweithgareddau hamdden a diwylliannol, bioamrywiaeth a chynefinoedd ecolegol, cynhyrchu bwyd yn lleol, a lliniaru ac addasu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd. Mewn perthynas â'r elfen olaf hon, gall coed a llystyfiant leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy amsugno carbon deuocsid o'r atmosffer. Gallant hefyd wella effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy anwedd-drydarthiad a chysgodi uniongyrchol, a helpu i ymdopi â'r achosion cynyddol o law trwm sydyn drwy leihau dŵr ffo a chynyddu faint o ddŵr glaw sy'n cael ei ddal.

Themâu a Nodau Allweddol

- 1.8 Ar sail adolygiad manwl o'r llenyddiaeth graidd¹ sy'n ymwneud â mannau agored a data'r boblogaeth ym Merthyr Tudful, dyma themâu allweddol Strategaeth Mannau Agored Merthyr Tudful:

-  Iechyd a Lles,
-  Economi
-  Yr Amgylchedd

- 1.9 Datblygwyd y themâu hyn wedyn i lunio nodau ar gyfer y strategaeth, sef:

-  Gwellu iechyd a lles cymunedau lleol ym Merthyr Tudful drwy gynnig mwy o gyfleoedd i drigolion wella eu hiechyd corfforol a meddyliol drwy well mynediad at fannau agored.
-  Gwellu proffil Merthyr Tudful drwy welliannau mewn mannau agored a balchder ynddynt, ac felly gwella canfyddiad allanol o'r ardal ar gyfer mewnfuddsoddi.

¹ Gweler y papur cefndirol, "Policy Review".


-  Gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth drwy gynyddu'r ardal i gynefinoedd a chynnig mwy o gyfleoedd i rywogaethau symud.
-  Datblygu rhwydwaith o seilwaith gwyrdd lle mae cysylltedd rhwng gwahanol fathau o fannau agored o ansawdd da sydd, gyda'i gilydd, yn galluogi i sicrhau buddion niferus.

Dull ar gyfer Nodi ac Asesu Mannau Agored

- 1.10 Cafodd y gwaith o asesu mannau agored addas yn y Fwrdeistref Sirol ei gyfyngu i safleoedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd gan roi ystyriaeth i ansawdd y mannau dan sylw a'u math. Darperir manylion pellach o diffiniadau'r mathau o fannau agored a'r meini prawf hygyrchedd yn **Atodiad 2**. I bob man agored sydd wedi'i gynnwys yn y Strategaeth, pennwyd math cyffredinol o'r rhestr o ddosbarthiadau, fel parc a gardd gyhoeddus neu fan dinesig. Nid yw safleoedd preifat, megis gerddi, tir fferm neu gaeau chwarae mewn eiddo preifat, wedi'u cynnwys yn y Strategaeth, er bod lleoliadau'r safleoedd wedi'u nodi er mwyn ei gwneud yn gyflawn.
- 1.11 Cafodd pob safle ei arolygu i ganfod nifer o ffactorau ynglŷn â'i briodweddau a'i lefelau hygyrchedd. Cwblhawyd pro fforma gyda phenderfyniad ynglŷn â ph'un a ddylid cynnwys y safle i'w gynnwys ymhellach yn y Strategaeth. Mae enghraifft o'r pro fforma i'w weld yn **Atodiad 3**.
- 1.12 Roedd yr asesiad safle o'r mannau agored presennol yn gam pwysig tuag at baratoi'r Strategaeth; cynigai ddealltwriaeth uniongyrchol o'r data llinell sylfaen ynglŷn â maint ac ansawdd yr amryw fathau o fannau agored. Daeth y data hwn i fod yn offeryn defnyddiol i helpu i esbonio'r sefyllfa i'r cyhoedd o ran y ddarpariaeth bresennol o fannau agored ac ennyn ymateb o ran y galw a'r angen.
- 1.13 Cynhaliwyd gweithgareddau ymgynghoriad cyhoeddus² yn 2013 fel a ganlyn:
-  Ymweliadau ysgol – cyflwyniad a gweithgareddau rhyngweithiol
 -  Clybiau ieuenctid – cyflwyniadau a gweithgareddau rhyngweithiol
 -  Digwyddiadau cyhoeddus – ymgynghoriad a holiaduron
 -  Holiadur ar-lein
 -  Ymgynghoriad grŵp buddiant a gweithgareddau rhyngweithiol.
- 1.14 Roedd y dystiolaeth a gasglwyd drwy asesiadau safle, ymgynghoriad cyhoeddus ac archwiliad o ddemograffeg bresennol yn cwblhau'r ddealltwriaeth o'r galw a'r angen. Drwy gymhwyso safonau cenedlaethol, astudiaethau cymharol a'r

² Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â'r amryw ddigwyddiadau a'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn y ddogfen gefndirol, "*Public Consultation*".

ddealltwriaeth hon o'r angen, roedd modd gosod safonau lleol ar gyfer maint, hygyrchedd ac ansawdd y ddarpariaeth leol³. Defnyddiwyd y safonau hyn i gyfarwyddo'r Strategaeth hon a llunio cyfres o 11 o Gynlluniau Gweithredu, un ar gyfer pob ward yn y Fwrdeistref Sirol (Gweler Ffigur 1). Caiff y Strategaeth, yr archwiliad o'r safleoedd a'r Cynlluniau Gweithredu eu hadolygu a'u diweddarau bob pedair blynedd yn unol â phroses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.



Ffigur 1: Wardiau ym Merthyr Tudful.

³ Mae manylion llunio'r safonau i'w gweld yn y ddogfen gefndirol "*Standards for Quality, Quantity and Accessibility*".

2.0 Y Ddarpariaeth, y Safonau a'r Galw Presennol

Y Cefndir Hanesyddol

2.1 Sefydlwyd mannau agored ym Merthyr Tudful yn y ffyrdd canlynol:

-  Cymynroddwyd tir i'r Fwrdeistref Sirol gan unigolion cyfoethog er budd y trigolion, e.e. Parc Cyfarthfa.
-  Drwy gyfraniadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd, lle mae mannau amwynder ac ardaloedd chwarae i'r plant wedi'u cynnwys yn y datblygiad, neu wrth i fannau agored presennol gael eu hymgorffori yn y datblygiad ac ansawdd yr offer gael eu gwella.
-  Creu mannau agored i ddiwallu anghenion penodol o ran hamdden ac agweddau ymarferol, megis caeau chwarae a chaeau chwarae i plant.
-  Creu mannau agored drwy raglen glirio slymiau helaeth yn y 1960au a'r 1970au.
-  Adfer cyn-safleoedd treftadaeth ddiwydiannol.
-  Yn fwy diweddar drwy brosiectau adfywio, yn aml ar ffurf mannau dinesig newydd.

Trosolwg o Ddarpariaeth Mannau Agored

2.2 Drwy waith cefndirol y Strategaeth, nodwyd 139 o safleoedd ledled y Fwrdeistref Sirol, sy'n gyfanswm o 493 hectar o fannau agored sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Mae hyn yn gyfwerth ag 8.38 hectar o fannau agored hygyrch i bob 1000 o'r boblogaeth.


2.3 Mae cyfansoddiad cyfrannol y gwahanol fathau o fannau agored yn y Fwrdeistref Sirol i'w weld yn Ffigur 2 isod. Y math mwyaf o fan agored yn y Fwrdeistref Sirol (o ran rhif) yw Mannau Gwyrdd Naturiol / Lled-naturiol, a'r math sydd wedi'i gynrychioli leiaf yw Parciau a Gerddi.

2.4 O ran mynediad at fannau agored, mae'r canrannau canlynol o aelwydydd yn cyrraedd safonau hygyrchedd y gwahanol fathau o fannau agored:

-  Mae 37% o'r aelwydydd o fewn pellter cerdded o 600m i Fan Chwarae i Blant a Phobl Ifanc;
-  Mae 80% o'r aelwydydd o fewn pellter cerdded o 400m – 2000m i Barciau a Gerddi Cyhoeddus;
-  Mae 80% o'r aelwydydd o fewn pellter cerdded o 1200m i Gaeau Chwaraeon Awyr Agored;
-  Mae 56% o'r aelwydydd o fewn pellter cerdded o 400m i Fan Agored Naturiol / Lled-naturiol;

- 🌳 Mae 58% o'r aelwydydd o fewn pellter cerdded o 720m i Fan Gwyrdd Amlswyddogaethol;
- 🌳 Mae 36% o'r aelwydydd o fewn pellter cerdded o 600m i Randiroedd ac Ardaloedd Tyfu Cymunedol;
- 🌳 Mae 31% o'r aelwydydd o fewn pellter cerdded o 720m i Fannau Dinesig;
- 🌳 Mae 18% o'r aelwydydd o fewn pellter cerdded o 240m i Fan Gwyrdd Amwynder;
- 🌳 Mae 40% o'r aelwydydd o fewn pellter cerdded o 300m i Goridorau Hamdden Gwyrdd.

2.5 Mewn perthynas â darpariaeth mannau agored oddi mewn i wardiau, Treharris sydd â'r ddarpariaeth orau, ac yno 87 hectar o fannau agored. Penydarren sydd â'r ddarpariaeth leiaf, ac yno ddim ond 14.5 hectar o fannau agored.



Ffigur 2 – Cyfansoddiad cyfrannol y mannau agored yn y Fwrdeistref Sirol (hectar)⁴

⁴ Noder nad yw'r coridorau hamdden gwyrdd wedi'u cynnwys yn y siart cylch am eu bod yn cynrychioli coridorau cyswllt strategol a fesurir, yn fwyaf priodol, mewn cilometrau.

Trosolwg o'r Mathau o Fannau Agored

- 2.6 Fel a amlinellwyd yn flaenorol, mae 9 math o fan agored wedi'u diffinio yn y Strategaeth hon. Rhoddir amlinelliad cryno o bob math o fan agored isod, gan gynnig dealltwriaeth o'r mathau o fannau agored sydd i'w cael ym Merthyr Tudful a rhai canfyddiadau allweddol sy'n gyffredin i'r mathau hyn o fannau agored. Yn benodol, rhoddir sawl un o bob math o fan agored sydd ym mhob ward, yn ogystal â maint y mannau agored (hectar) i bob 1000 o'r boblogaeth. Mae'r ffigwr olaf hwn yn caniatáu inni gymharu â'r safon ofynnol a fabwysiadwyd, sydd hefyd yn cael ei nodi.
- 2.7 Mae ansawdd y mannau agored hefyd yn ystyriaeth bwysig mewn strategaeth mannau agored. O ganlyniad, cynhaliwyd asesiad bras o ansawdd pob safle ar y cam o gynnal arolwg o'r safleoedd, ac wedi hynny gwnaed asesiad manylach o'r ansawdd ar sail egwyddorion safonau Cynllun Dyfarnu'r 'Faner Werdd'. Addaswyd y safonau hyn yn dibynnu ar fath y man agored gan nad yw rhai elfennau o safonau'r 'Faner Werdd' yn berthnasol i bob math o fan agored. Felly mae i bob math o fan agored restr benodol o feini prawf ansawdd i'w cyrraedd, yn ddelfrydol, ar gyfer y math hwnnw o fan agored. Aseswyd sampl o safleoedd ar gyfer pob math o fan agored ym mhob ward ac mae'r canlyniadau, ynghyd â'r safonau ansawdd a fabwysiadwyd ar gyfer pob math o fan agored⁵, i'w gweld yn y ddogfen gefndirol, "*Open Space Quality*".
- 2.8 Yn olaf, mae'r pellter neu'r amser a gymer i gerdded i fan agored hefyd yn ystyriaeth bwysig gan y gall hyn gael dylanwad mawr ar allu rhywun i gael mynediad ato. Mae'r safon hygrychedd ar gyfer pob math o fan agored wedi'i osod allan isod sy'n argymhell yr amser (munudau) / pellter (metrau) o fath penodol o fan agored y mae'n rhaid i'r boblogaeth fyw er mwyn i hynny gael ei ystyried yn fynediad digonol⁶. Ceir enghraifft o fap hygrychedd ar gyfer mannau agored i blant a phobl ifanc yn **Atodiad 4**.

Rhandiroedd a Mannau Tyfu Cymunedol

- 2.9 Caiff rhandiroedd eu diffinio fel ardaloedd o dir (ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol yn bennaf) a ddefnyddir yn unig at ddiben tyfu cnydau bwyd i'w ddefnyddio gan y deiliaid neu'u teulu. Nid ydynt yn cynnwys gerddi preifat na safleoedd masnachol. Mae gan rhandiroedd rôl i'w chwarae yn yr amgylchedd ehangach drwy wella ecoleg a'r amgylchedd, hybu iechyd a chynhwysiant cymdeithasol a'r cyfraniad a wnânt tuag at yr economi a chreu cyfoeth. Gall y math hwn o fan agored hefyd gynnwys gerddi cymunedol.

⁵ Mae'r safonau ansawdd yn seiliedig ar Feini Prawf y Faner Werdd.

⁶ Mae gwybodaeth bellach am yr asesiad cefndirol o hygrychedd y safleoedd a sut y gosodwyd y meini prawf i'w gweld yn y ddogfen gefndirol, "*Standards for Quality, Quantity and Accessibility*".



Rhandiroedd Royal Crescent, Penydarren

2.10 Y safon o ran maint yw **0.25 hectar am bob 1000 o'r boblogaeth** fel sydd wedi'i osod gan Gymdeithas Genedlaethol y Garddwyr Rhandiroedd a Hamdden ar sail cyfartaledd maint llain o 250 m². Mae rhandiroedd wedi'u dosbarthu fel a ganlyn drwy'r Fwrdeistref Sirol:

Ward	Poblogaeth o bob oedran 2011	Nifer y safleoedd	Darpariaeth bresennol Hectar	Hectar i bob 1,000 o'r boblogaeth
Bedlinog	3,277	1	0.28	0.08
Cyfarthfa	6,869	1	0.62	0.09
Dowlais	6,926	1	0.39	0.05
Ynysowen	3,831	2	0.51	0.13
Penydarren	5,419	1	3.34	0.61
Treharris	6,356	2	1.80	0.28
Faenor	3,551	1	0.16	0.04
Gurnos	5,280	0	0	0.00
Y Parc	4,326	0	0	0.00
Y Dref	7,671	0	0	0.00
Plymouth	5,296	0	0	0.00
Merthyr Tudful	58,802	9	6.84	0.11

2.11 Mae'r safon hygyrchedd ar gyfer rhandiroedd a mannau tyfu cymunedol wedi'i gosod ar fwyafswm o 600m neu 10 munud o gerdded.

2.12 Ar wahân i'r cyfle y mae rhandiroedd yn eu cynnig o ran ffrwythau a llysiau wedi'u tyfu gartref, y mae cysylltiadau cydnabyddedig rhwng y gweithgareddau hyn ac iechyd a lles personol drwy wneud defnydd gweithgar a rheolaidd o'r awyr agored.

Mannau Gwyrdd Amwynder

- 2.13 Mae mannau gwyrdd amwynder yn cynnig cyfle ar gyfer gweithgarwch hamdden anffurfiol, ac maent yn aml wedi'u lleoli'n agos at y cartref neu'r gwaith. Gall mannau gwyrdd amwynder wella golwg ardal a bod yn fan cyfarfod a/neu'n ganolbwynt i gymunedau. Nid oes cyfleusterau bob amser yn bresennol mewn mannau o'r fath, ac yn aml nid oes ynddynt fwy na gwair wedi'i dorri, mainc ac ychydig o goed. Mae nifer o safleoedd sydd wedi'u dosbarthu yn fannau gwyrdd amwynder wedi codi o ganlyniad i waith dymchwel eang neu glirio slymiau, a phrin y cânt eu hystyried yn sylweddol. Ond y mae gan fannau gwyrdd amwynder rôl i'w chwarae wrth ddarparu mannau gwyrdd yn yr amgylchedd adeiledig at ddefnydd anffurfiol, ac er nad yw priodweddau'r mannau eu hunain yn aml yn lleoedd sy'n ysbrydoli y maent yn aml yn cynnig synnwyr o leoliad ac ansawdd i'r amgylchedd adeiledig ac yn cynnig cyfleoedd anffurfiol i blant chwarae lle nad oes cyfleusterau eraill ar gael.



Man Gwyrdd Amwynder, Gerddi Bethesda

- 2.14 Mae'r safon ansawdd wedi'i gosod ar **0.8 hectar i bob 1000 o'r boblogaeth** yn seiliedig ar safon Cymdeithas Genedlaethol Caeau Chwarae (Fields in Trust) ar gyfer mannau chwarae. Mae mannau gwyrdd amwynder wedi'u dosbarthu fel a ganlyn yn y Fwrdeistref Sirol:

Ward	Poblogaeth o bob oedran 2011	Nifer y safleoedd	Darpariaeth bresennol Hectar	Hectar i bob 1,000 o'r boblogaeth
Bedlinog	3,277	0	0	0
Cyfarthfa	6,869	0	0	0
Dowlais	6,926	10	7.43	1.07
Ynysowen	3,831	1	0.07	0.01
Penydarren	5,419	0	0	0
Treharris	6,356	5	1.40	0.22
Faenor	3,551	3	1.52	0.42
Gurnos	5,280	2	1.06	0.20
Y Parc	4,326	8	2.82	0.65
Y Dref	7,671	2	0.21	0.02
Plymouth	5,296	1	0.10	0.01
Merthyr Tudful	58,802	32	14.65	0.24

2.15 Mae'r safon hygrychedd ar gyfer mannau gwyrdd amwynder wedi'i gosod ar fwyafswm o 240m neu 5 munud o gerdded.

2.16 Dangosodd canlyniadau arolwg y cyhoedd bod mwy na hanner y rhai a holwyd yn defnyddio mannau gwyrdd amwynder yn rheolaidd. Gallai hyn gael ei briodoli i'r ffaith bod mannau gwyrdd amwynder i'w canfod yn bennaf mewn ardaloedd trefol / preswyl lle mae cyfran uwch o'r boblogaeth yn byw. Mae buddion esthetig a thirwedd mannau gwyrdd amwynder yn cynnig llawer o werth i drigolion ar wahân i ddarparu ar gyfer hamdden anffurfiol, gan gynnwys cyfleoedd bioamrywiaeth ac ecoleg.

Mannau i Blant a Phobl Ifanc

2.17 Diffiniad Llywodraeth Cymru o chwarae yw ymddygiad sydd: wedi'i ddewis yn rhydd, ei gyfarwyddo'n bersonol a'i ysgogi'n gynhenid, a'i gyflawni heb fod at unrhyw nod na gwobr allanol. Hynny yw, plant a phobl ifanc sy'n pennu ac yn rheoli cynnwys a bwriad eu chwarae, gan ddilyn eu greddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffyrdd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.

2.18 Nid yw mannau chwarae plant a phobl ifanc wedi'u cyfyngu i'r math confensiynol o barc chwarae gyda siglenni a llithrennau; gall fod iddynt lawer o ffurfiau eraill, fel parciau chwarae antur, ardaloedd 'chwarae rhydd' neu 'chwarae anstrwythuredig', parciau sglefrfyddio, ac ardaloedd / lloches ag offer dynodedig i rai yn eu harddegau dreulio amser. Mae'r ardaloedd hyn yn aml yn gaeedig ac weithiau'n cynnwys offer chwarae ac ardal o wair wedi'i dorri.

2.19 Mae Cynulliad Cymru yn cydnabod pwysigrwydd chwarae i iechyd a lles plant a phobl ifanc, ac o ran agweddau corfforol, cymdeithasol, meddyliol ac emosiynol ar

fywyd. Y mae o'r farn mai'r agosaf yw cyfleusterau chwarae i'r cartref, y mwyaf tebygol yw plant o'u defnyddio.

2.20 Mae Fields in Trust (2009) wedi diffinio tri phrif fath o ardaloedd chwarae dynodedig, sef:

-  Ardal Leol ar gyfer Chwarae neu Fan Chwarae ar Garreg y Drws – Ardal fach agored yw hon sydd wedi'i dynodi'n benodol ac wedi'i gosod allan yn bennaf ar gyfer plant ifanc iawn i chwarae'n agos at lle maent yn byw, hynny yw o fewn 1 funud o gerdded. Nid oes angen offer chwarae fel y cyfryw, ac mae'n dibynnu fwy ar nodweddion dangosol sy'n dangos y caiff chwarae ei annog yn gadarnhaol.
-  Ardal Leol ag Offer ar gyfer Chwarae – Ardal agored yw hon sydd wedi'i dynodi'n benodol ac wedi'i gosod â nodweddion sy'n cynnwys offer i blant sy'n dechrau mynd allan i chwarae'n annibynnol yn agos at lle maent yn byw, fel arfer o fewn 5 munud o gerdded. Yn ôl profiad, gall darparu'r ardaloedd hyn o fewn 5 munud o gerdded o bob tŷ mewn datblygiad newydd weithiau fod yn anymarferol ac anodd i'w gyflawni. Dewis arall yn lle hynny felly yw darparu Ardal Leol wedi'i Thirweddu ar gyfer Chwarae.
-  Ardal y Gymdogaeth ag Offer ar gyfer Chwarae
Ardal agored yw hon wedi'i dynodi'n benodol, wedi gosod allan â'r offer yn bennaf ar gyfer plant hŷn ond â chyfleoedd chwarae i blant iau hefyd. Wedi'i lleoli o fewn 15 munud o gerdded o'r cartref, mae'r ardal hon yn ddigon mawr i alluogi darpariaeth ar gyfer cyfleoedd chwarae na ellir eu darparu mewn Ardal Leol ar gyfer Chwarae nac Ardal Leol ag Offer ar gyfer Chwarae. Gall Ardal y Gymdogaeth ag Offer ar gyfer Chwarae ddarparu amrywiaeth ehangach o gyfleoedd ar gyfer chwarae gweithgar a goddefol. Gall ddarparu offer chwarae, ac ardal o arwyneb caled ar gyfer gemau pêl, neu weithgareddau ar olwynion fel sglefrolio neu feicio.



Ardal Chwarae ym Mharc Cyfarthfa

2.21 Daw'r safonau ansawdd canlynol o Safon Chwe Erw Fields in Trust (Cymdeithas Genedlaethol Meysydd Chwarae):

- 🏡 **0.25 hectar i bob 1000 o'r boblogaeth** ar gyfer mannau chwarae ag offer dynodedig
- 🏡 **0.55 hectar i bob 1000 o'r boblogaeth** ar gyfer mannau chwarae anffurfiol
- 🏡 **0.8 hectar i bob 1000 o'r boblogaeth** ar gyfer mannau chwarae i blant

2.22 Mae mannau chware i blant a phobl ifanc wedi'u dosbarthu fel a ganlyn drwy'r Fwrdeistref Sirol:

Ward	Poblogaeth o bob oedran 2011	Nifer y safleoedd	Darpariaeth bresennol Hectar	Hectar i bob 1,000 o'r boblogaeth
Bedlinog	3,277	4	0.41	0.12
Cyfarthfa	6,869	10	1.96	0.28
Dowlais	6,926	7	1.11	0.16
Ynysowen	3,831	5	0.81	0.21
Penydarren	5,419	3	0.38	0.07
Treharris	6,356	5	0.40	0.06
Faenor	3,551	3	0.32	0.09
Gurnos	5,280	4	0.71	0.13
Y Parc	4,326	0	0.00	0.00
Y Dref	7,671	2	0.37	0.04
Plymouth	5,296	3	0.58	0.10
Merthyr Tudful	58,802	45	7.05	0.11

2.23 Mae'r safon hygyrchedd ar gyfer mannau chwarae i blant a phobl ifanc wedi'u gosod fel a ganlyn:

- 🌳 **‘Mannau chwarae ag offer dynodedig’** – pellter cerdded o 100m neu bellter llinell syth o 60m.
- 🌳 **‘Mannau chwarae anffurfiol’** – pellter cerdded o 400m neu bellter llinell syth o 240m.
- 🌳 **‘Mannau chwarae i blant’** – pellter cerdded o 1000m neu bellter llinell syth o 600m.

Mannau Dinesig

- 2.24 Mae mannau dinesig yn darparu lle ar gyfer adeiladau a henebion dinesig, ac yn cynnig cyfleoedd i'r cyhoedd ymgynnull/gwrthdystio neu gyfleoedd ar gyfer digwyddiadau cymunedol. Maent yn aml yn diffinio cymeriad yr amgylchedd trefol ac yn gweithredu fel ardaloedd cyhoeddus sy'n ganolbwynt i weithgarwch pobl ar droed. Mae enghreifftiau yn cynnwys sgwariau, sgwariau marchnad, henebion, cofebion ac ardaloedd cymunedol eraill ag arwyneb caled wedi'u dylunio i bobl ar droed.



Eglwys Sant Tudful a'r Ffynnon, Merthyr Tudful

- 2.25 Gall mannau dinesig fod yn bwysig i hunaniaeth trefi a phentrefi gan eu bod yn lleoedd y gall pobl gyd-brofi synnwyr o falchder a pherchnogaeth. Gall mannau dinesig hefyd ddarparu lle i ymlacio a gallant fod yn arbennig o allweddol wrth adfywio canol trefi.
- 2.26 Nid oes safon wedi'i osod ar gyfer maint y math hwn o fan agored; fodd bynnag, y mesur agosaf y mae modd ei ddefnyddio'n ymarferol yw'r angen i ddarparu, lle y bo'n bosibl, fan agored i bob cymuned sy'n rhoi canolbwynt i gymuned, hunaniaeth i'r dref neu'r pentref a chyd-synnwyr o falchder a pherchnogaeth. Mae mannau dinesig wedi'u dosbarthu fel a ganlyn drwy'r Fwrdeistref Sirol:

Ward	Poblogaeth o bob oedran 2011	Nifer y safleoedd	Darpariaeth bresennol Hectar	Hectar i bob 1,000 o'r boblogaeth
Bedlinog	3,277	2	0.233	0.071
Cyfarthfa	6,869	0	0.00	0.00
Dowlais	6,926	0	0.00	0.00
Ynysowen	3,831	3	0.35	0.091
Penydarren	5,419	0	0.00	0.00
Treharris	6,356	1	0.07	0.011
Faenor	3,551	1	0.02	0.005
Gurnos	5,280	0	0.00	0.00
Y Parc	4,326	0	0.00	0.00
Y Dref	7,671	3	1.11	0.140
Plymouth	5,296	0	0.00	0.00
Merthyr Tudful	58,802	10	1.783	0.178

2.27 O ran hygyrchedd, nid oes modd ymarferol i ddylanwadu ar ddalgylchoedd mannau agored o'r fath, ac felly nid oes safon wedi'i gosod. Ond sefydlwyd meincnod o 15 munud o gerdded i unrhyw fan dinesig i ganfod sut mae'r mannau dinesig presennol wedi'u dosbarthu yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r meincnod hwn yn adlewyrchu pen uchaf y pellter cerdded a fyddai'n dderbyniol.

2.28 Nodwyd o'r arolwg safleoedd mai ardaloedd wedi'u tirweddu'n galed, heb lawer o wyrddni, yw mannau agored dinesig, neu ardaloedd sy'n cynnwys tirweddu meddal na fyddai o lawer o fudd i'r planhigion a'r anifeiliaid lleol. Byddai'r gallu i wella'r sefyllfa hon yn aml yn anodd yn sgil lleoliad trefol y safleoedd hyn.

Coridorau Hamdden Gwyrdd

2.29 Caiff coridorau hamdden gwyrdd eu diffinio fel llwybrau sy'n hygyrch i'r cyhoedd gan gynnwys llwybrau afon, llwybrau beicio, llwybrau tramwy a chyn-linellau rheilffordd. Y maent yn aml yn cysylltu ardaloedd mewn trefi, ac fel arfer yn cael eu defnyddio ar gyfer cerdded, beicio a marchogaeth ceffyl. Gall coridorau hamdden gwyrdd hefyd gysylltu trefi a chefn gwlad a pharciau gwledig o'u hamgylch, a gallant gysylltu mannau gwyrdd neu fannau diffiniedig eraill â'i gilydd. Mewn amgylchiadau penodol, gallant ffurfio rhan o lwybr dynodedig neu lwybr hirbell, fel Llwybr Taf.

2.30 Yn ogystal â gwella cynaliadwyedd, mae coridorau hamdden gwyrdd yn gyfle pwysig i hybu trafnidiaeth gynaliadwy ar feic neu ar droed. Bydd darparu, defnyddio a chynnal coridorau gwyrdd yn elfen allweddol wrth sicrhau mwy o weithgarwch corfforol a chyfranogi.

2.31 Nid oes safon maint ar gyfer coridorau hamdden gwyrdd gan fod yr angen yn cael ei yrru'n bennaf gan yr arfer o hybu ffurfiau o dtrafnidiaeth mewn ardaloedd trefol sy'n amgylcheddol gynaliadwy. Mae'r berthynas a'r cysylltedd rhwng gwahanol

ddefnydd tir yn ystyriaeth bwysig a byddant yn amrywio rhwng ardaloedd. Golyga hyn mai anodd a braidd yn amhriodol yw gosod safonau.

Ward	Poblogaeth o bob oed 2011	Llwybr Taf (km)	Llwybr Trevithick (km)	Llwybr Celtaidd (km)	Llwybr Beicio Blaenau'r Cymoedd (km)	Coridorau eraill (km)	KM i bob 1000 o'r boblogaeth
Bedlinog	3,277	nil	nil	1.26	nil	1.73	0.91
Cyfarthfa	6,869	1.25	nil	nil	0.31	0.07	0.23
Dowlais	6,926	2.19	nil	nil	1.27	nil	0.49
Ynysowen	3,831	3.76	3.49	nil	nil	1.21	2.20
Penydarren	5,419	nil	nil	nil	nil	nil	-
Treharris	6,356	5.11	0.26	1.21	nil	0.93	1.18
Faenor	3,551	2.43	nil	nil	nil	0.11	0.71
Gurnos	5,280	nil	nil	nil	nil	0.79	0.14
Y Parc	4,326	0.15	nil	nil	0.11	1.45	0.39
Y Dref	7,671	0.12	0.40	nil	nil	nil	0.06
Plymouth	5,296	5.14	4.28	nil	nil	1.20	2.00
Merthyr Tudful	58,802	20.15	8.43	2.47	1.69	7.49	0.68

2.32 Ystyrir mai polisïau cynllunio yw'r ffyrdd mwyaf priodol i hyrwyddo'r defnydd o goridorau gwyrdd fel ffyrdd i gysylltu ardaloedd preswyl â rhwydweithiau beicio cenedlaethol; canol trefi a chanolbwyntiau lleol; cyfleusterau cymunedol fel ysgolion, siopau, canolfannau cymunedol a chyfleusterau chwaraeon; a mannau cyflogaeth. Yn hyn o beth, caiff coridorau gwyrdd eu gyrru gan y galw ac maent yn ddibynnol ar batrwm datblygiadau newydd a'r gallu i aildefnyddio llwybrau llinol sefydledig, megis rheilffyrdd segur.

2.33 Fel yn achos safon maint, nid oes safon ofynnol wedi'i mabwysiadu'n ffurfiol ar gyfer hygyrchedd coridorau hamdden gwyrdd, er bod 'safon mynediad ofynnol' wedi'i defnyddio i nodi'r ardaloedd hynny nad ydynt wedi'u gwasanaethu'n dda gan y math hwn o fannau agored.

2.34 Y mae'n amlwg mai rhai o'r wardiau hynny sydd â'r ddarpariaeth leiaf o ran cyswllt â llwybrau yw'r rhai sydd hefyd â'r crynodiad mwyaf o boblogaeth, fel Penydarren a Gurnos. Tra bo'r ffigurau fesul ward yn rhoi trosolwg cyffredinol, nid oes modd dibynnu'n llwyr arnynt oherwydd natur y ddaearyddiaeth drefol mewn rhai ardaloedd. Er enghraifft, mae'n ymddangos bod ward Bedlinog wedi'i chysylltu'n gymharol dda; fodd bynnag, yn ddaearyddol mae'r coridorau hamdden gwyrdd i'w canfod yn bennaf yn y de tuag at Drelewis, gan olygu nad oes llawer o ddarpariaeth i'r gymuned yng ngogledd Bedlinog.

Mannau Gwyrdd Amlswyddogaethol

- 2.35 Mae mannau gwyrdd amlswyddogaethol yn cynnwys dau neu ragor o fathau diffiniedig o fannau gwyrdd. Dangosir enghraifft o fan gwyrdd amlswyddogaethol yn Ynysowen isod, sy'n cynnwys offer chwarae ffurfiol a maes chwarae.
- 2.36 Y mae nifer o fuddion i ddarparu man agored amlswyddogaethol, gan gynnwys gwerth hamdden anffurfiol a darparu man cyfarfod a/neu ganolbwynt i gymunedau. Pwysig hefyd yw nodi ac ystyried swyddogaethau eilaidd mannau gwyrdd amlswyddogaethol, yn benodol y buddion gweledol a'r buddion i fioamrywiaeth sy'n dibynnu ar y cyfuniad o fannau agored. Mae buddion gweledol yn aml yn bwysig iawn mewn ardaloedd trefol.
- 2.37 Mae mannau gwyrdd amlswyddogaethol yn fath cyfansawdd o fan agored sydd debycaf i barciau a gerddi ond sydd yn aml yn cynnwys cae chwaraeon awyr agored a man chwarae anffurfiol gan gyflawni swyddogaeth cyfleuster parc ardal neu barc lleol. Mae'r safon maint wedi'i osod ar **1.7 hectar i bob 1000 o'r boblogaeth** a chyfrifwyd hyn drwy gyfuno safonau'r caeau chwaraeon awyr agored a'r mannau chwarae anffurfiol.



Man Gwyrdd Amlswyddogaethol yn Ynysowen

- 2.38 Mae dosbarthiad mannau gwyrdd amlswyddogaethol drwy'r Fwrdeistref Sirol i'w weld yn y tabl isod.

Ward	Poblogaeth o bob oedran 2011	Nifer y safleoedd	Darpariaeth bresennol Hectar	Hectar i bob 1,000 o'r boblogaeth
Bedlinog	3,277	2	13.38	4.08
Cyfarthfa	6,869	1	2.55	0.37
Dowlais	6,926	5	22.85	3.29
Ynysowen	3,831	3	11.69	3.05
Penydarren	5,419	2	10.84	2.00
Treharris	6,356	3	1.26	0.19
Faenor	3,551	3	1.58	0.44
Gurnos	5,280	2	4.83	0.91
Y Parc	4,326	0	0	0
Y Dref	7,671	1	8.20	1.06
Plymouth	5,296	3	11.98	2.26
Merthyr Tudful	58,802	25	89.16	1.51

- 2.39 Mae'r safon hygyrchedd ar gyfer mannau gwyrdd amlswyddogaethol yn defnyddio'r safon hygyrchedd ar gyfer parciau a gerddi (gweler Parciau a Gerddi Cyhoeddus isod), sef mwyafswm o 720m (15 munud o gerdded) i fan gwyrdd amlswyddogaethol mawr neu 400m (10 munud o gerdded) i fan gwyrdd amlswyddogaethol bach.

Mannau Gwyrdd Naturiol / Lled-naturiol

- 2.40 Mae man gwyrdd naturiol / lled-naturiol wedi'i ddiffinio fel ardal o dir heb ei ddatblygu sydd â chynefin naturiol gweddilliol neu sydd wedi'i blannu neu'i gytrefu â llystyfiant a bywyd gwyllt. Mae enghreifftiau yn cynnwys ardaloedd o goetir, gwlyptir a phrysgdir, a'r cyfan yn agored i'r cyhoedd ac yn agos i'r boblogaeth. Er bod rôl allweddol i fannau agored naturiol a lled-naturiol ym maes cadwraeth bywyd gwyllt a bioamrywiaeth, mae'r cyfleoedd hamdden a ddarperir gan y mannau hyn hefyd yn bwysig. Y mae'n hanfodol y caiff cydbwysedd ei sicrhau rhwng defnydd hamdden, bioamrywiaeth a chadwraeth.
- 2.41 Mae'r 'Pecyn Cymorth Mannau Gwyrdd' a lansiwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ym mis Mai 2006 yn gosod safonau ansawdd gofynnol ar gyfer mannau gwyrdd naturiol / lled-naturiol o **2 hectar i bob 1000 o'r boblogaeth**. Dyma'r safon a fabwysiadwyd ar gyfer y Strategaeth hon.
- 2.42 Mae dosbarthiad y mannau gwyrdd naturiol / lled-naturiol ledled y Fwrdeistref Sirol i'w weld yn y tabl isod.

Ward	Poblogaeth o bob oedran 2011	Nifer y safleoedd	Darpariaeth bresennol Hectar	Hectar i bob 1,000 o'r boblogaeth
Bedlinog	3,277	0	0.00	0.00
Cyfarthfa	6,869	4	25.42	3.70
Dowlais	6,926	8	67.04	9.67
Ynysowen	3,831	1	4.13	1.07
Penydarren	5,419	1	5.95	1.09
Treharris	6,356	5	45.04	7.08
Faenor	3,551	2	45.60	12.84
Gurnos	5,280	3	22.86	4.32
Y Parc	4,326	1	24.39	5.63
Y Dref	7,671	5	29.16	3.80
Plymouth	5,296	7	22.55	4.25
Merthyr Tudful	58,802	38	300.9	5.11

2.43 Mae'r safon hygyrchedd ar gyfer mannau gwrdd naturiol / lled-naturiol yn galw am o leiaf un man o'r fath o 20 hectar o fewn 2km i bob cartref.



Man Gwyrdd Lled-naturiol yn Cwm Blacs, Twynyrodyn

Ardaloedd a Chaeau Chwaraeon Awyr Agored

- 2.44 Mae ardaloedd/caeau chwaraeon awyr agored yn ardaloedd mawr a chyffredinol wastad o wair a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer chwaraeon dynodedig. Mae mannau o'r fath yn aml yn ganolbwynt i gymuned leol, ac iddynt swyddogaeth adnodd hamdden ac amwynder yn ogystal â chyfleuster chwaraeon ffurfiol. Mae hyn yn arbennig o wir am gaeau chwaraeon, sydd hefyd ag iddynt swyddogaeth eilaidd o fod yn ardal i fynd â'r ci am dro ac i gicio pêl.
- 2.45 Mae'r Strategaeth yn cynnwys yr ardaloedd/caeau chwaraeon awyr agored hynny sy'n agored i'r cyhoedd yn unig. O'r herwydd, nid yw lawntiau bowlïo, cyrsiau golff na chaeau pêl-droed/rygbi sydd â mynediad cyfyngedig, neu sydd at ddefnydd neu ar brydles gan glybiau at fudd eu haelodau'n unig, wedi'u cynnwys.
- 2.46 Mae Fields in Trust yn gosod safon maint ar gyfer ardaloedd/caeau chwaraeon awyr agored ar gyfer ardal fel Merthyr Tudful o **1.15 hectar i bob 1000 o'r boblogaeth**. Dyma'r safon a fabwysiadwyd ar gyfer y Strategaeth hon.
- 2.47 Mae dosbarthiad yr ardaloedd/caeau chwaraeon awyr agored yn y Fwrdeistref Sirol i'w weld yn y tabl isod.

Ward	Poblogaeth o bob oedran 2011	Nifer y safleoedd	Darpariaeth bresennol Hectar	Hectar i bob 1,000 o'r boblogaeth
Bedlinog	3,277	4	4.0	1.22
Cyfarthfa	6,869	3	3.2	0.46
Dowlais	6,926	2	1.4	0.20
Ynysowen	3,831	3	11.4	2.97
Penydarren	5,419	2	3.6	0.66
Treharris	6,356	2	1.1	0.17
Faenor	3,551	3	2.9	0.81
Gurnos	5,280	2	3.1	0.58
Y Parc	4,326	0	0	0.00
Y Dref	7,671	3	5.9	0.76
Plymouth	5,296	4	7.2	1.35
Merthyr Tudful	58,802	28	43.8	0.74

- 2.48 Mae'r safon hygyrchedd ar gyfer ardaloedd/caeau chwaraeon awyr agored sydd wedi'i gosod gan Fields In Trust, ac a fabwysiadwyd ar gyfer y Strategaeth hon, yn dweud na ddylai'r un aelwyd mewn ardal fawr o dai fod mwy nag 1.2km o gyfleuster o'r fath.



Cae Chwaraeon yn Nhroed-y-rhiw, Merthyr Tudful

Parciau a Gerddi Cyhoeddus

- 2.49 Fel arfer, mae parciau a gerddi cyhoeddus yn ardaloedd o dir sydd wedi'u dylunio ac sy'n cael eu rheoli a'u cynnal at eu swyddogaeth benodol. Mae'r math hwn o fan agored yn cynnwys parciau trefol a gerddi ffurfiol sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau hamdden a chymunedol anffurfiol. Mae parciau hefyd yn aml yn cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau ac amwynderau, gan gynnwys rhai sy'n dod o fewn dosbarthiadau gwahanol o fannau agored, e.e. cyfleusterau chwarae plant, caeau chwaraeon ac ardaloedd bywyd gwylt⁷.
- 2.50 Mae parciau'n darparu synnwyr o le a chanolbwynt i'r gymuned leol ac yn helpu i fynd i'r afael â materion cynhwysiant cymdeithasol yn y gymdeithas ehangach. I lawer o bobl, y lleoedd hyn yw'r unig ffordd i fanteisio ar fuddion iechyd a lles yr awyr agored a chyswllt â byd natur. Gallai diffyg amser, arian neu drafnidiaeth rwystro pobl rhag teithio'n bell o lle maent yn byw neu'n gweithio er mwyn mwynhau'r awyr agored, gan olygu bod darparu parciau a gerddi hygyrch o ansawdd yn hanfodol i gynyddu cyfranogiad.
- 2.51 Yn ogystal â'r cyfleoedd hamdden a gynigir gan barciau, mae mannau gwyrdd o'r fath faint hefyd yn darparu buddion strwythurol a thirweddau mewn ardaloedd sydd fel arall yn adeiledig. Mae parciau trefol yn dod â buddion ecolegol i ardaloedd adeiledig drwy dorri'r tirweddau trefol mewn ffordd sy'n fwyfwy cynyddol. O ran y newid yn yr hinsawdd, gall effaith dymheru parciau ddylanwadu ar effaith ynys wres

⁷ Dylid nodi bod y gwahanol fathau o fan agored sydd i'w canfod mewn parc neu ardd gyhoeddus yn cael eu hystyried yn rhan gynhenid o'r parc neu'r ardd gyhoeddus dan sylw, ac felly ni chânt eu cyfrif ar wahân o dan eu mathau penodol o fannau agored.

mewn ardaloedd trefol pan ddaw tymheredd eithafol yn ystod misoedd yr haf, yn ogystal ag addasu'r tymheredd yn ystod y gaeaf hefyd.

2.52 Caiff yr holl barciau a'r gerddi yn y Fwrdeistref Sirol, ac eithrio Parc Cyfarthfa (sydd wedi'i roi ar les i Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful), eu rheoli a'u cynnal gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol. Nodwyd tri math o barciau a gerddi, sef parciau a gerddi strategol, parciau a gerddi mawr a pharciau a gerddi lleol bach. Mae'r ddarpariaeth bresennol wedi'i gosod allan isod.

2.53 Mae dau barc neu ardd strategol:

-  Parc Cyfarthfa
-  Parc Taf Bargoed

2.54 Mae pedwar o barciau neu erddi mawr:

-  Parc Aberfan
-  Parc Thomastown
-  Parc Treharris
-  Parc Trelewis

2.55 Mae tri o barciau neu erddi lleol bach:

-  Peiriandy Dowlais
-  Parc Troedyrhiw
-  Parc Ysbyty Sant Tudful (mynwent gynt)



Parc Troed-y-rhiw

2.56 Lluniwyd y safon ar gyfer maint drwy gymharu'r ddarpariaeth ag awdurdodau tebyg ac addasu'r ddarpariaeth bresennol i fyny ar sail y nifer uchel (33%) o ymatebwyr a ddymunai weld rhagor o Barciau a Gerddi.

2.57 Gosodwyd y safonau maint gofynnol fel a ganlyn:

-  Parciau a Gerddi Strategol: **2.04 hectar i bob 1000 o'r boblogaeth**
-  Parciau neu Erddi Cyhoeddus Bach a Mawr: **0.54 hectar i bob 1000 o'r boblogaeth**

2.58 Mae dosbarthiad y parciau a'r gerddi cyhoeddus ledled y Fwrdeistref Sirol i'w weld yn y tabl isod.


Ward	Poblogaeth o bob oedran 2011	Nifer y safleoedd	Darpariaeth bresennol Hectar	Hectar i bob 1,000 o'r boblogaeth
Bedlinog	3,277	1	29.77	9.08
Cyfarthfa	6,869	0	0.00	0.00
Dowlais	6,926	1	0.57	0.82
Ynysowen	3,831	1	2.50	0.65
Penydarren	5,419	0	0.00	0.00
Treharris	6,356	1	7.39	1.16
Faenor	3,551	0	0.00	0.00
Gurnos	5,280	0	0.00	0.00
Y Parc	4,326	1	61.08	14.11
Y Dref	7,671	2	7.28	0.94
Plymouth	5,296	1	1.03	0.19
Merthyr Tudful	58,802	9	109.62	1.86

2.59 Gosodwyd y safonau hygyrchedd ar gyfer parciau a gerddi cyhoeddus ar sail y pellteroedd a nodwyd ym 'Mhecyn Cymorth Mannau Gwyrdd' a lansiwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach) ym mis Mai 2006.

Parciau a Gerddi Cyhoeddus	Pellter (fel yr hed y frân)	Amcangyfrif o amser cerdded (munudau)
Parciau neu Erddi Strategol	2km	Amherthnasol
Parciau neu Erddi Mawr	720m	15
Parciau neu Erddi Lleol Bach	400m	10

3.0 Trosolwg o Ddadansoddiad o'r Wardiau

- 3.1 Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg o ffeithiau a ffigurau allweddol am fannau agored ym mhob ward yn y Fwrdeistref Sirol. Nid yw'r adran hon yn darparu unrhyw argymhellion nac yn dod i unrhyw gasgliadau; cyflwyno ffeithiau yn unig a wna⁸. Mae Ffigur 3 isod yn rhoi trosolwg o ddosbarthiad y mannau agored yn y Fwrdeistref Sirol. Mae mapiau o wardiau unigol sy'n dangos y gwahanol fathau o fannau agored presennol ym mhob ward i'w gweld yn **Atodiad 5**.



Ffigur 3: Trosolwg o ddosbarthiad y mannau agored yn y Fwrdeistref Sirol.

⁸ Gweler y cynlluniau gweithredu ar gyfer y wardiau penodol i gael dadansoddiad manylach o ddarpariaeth mannau agored yn y wardiau a'r camau gweithredu arfaethedig er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd.

Bedlinog

- 3.2 Yn gyffredinol, prin iawn yw'r safleoedd mannau agored yn Ward Bedlinog, er bod y rhai sy'n bodoli yn gymharol fawr a chymhleth, ac yn cynnwys nifer o fathau o fannau agored. Mae cyfanswm o 20 hectar o fannau agored yn y ward, a'r math mwyaf yw caeau chwaraeon awyr agored a pharciau a gerddi cyhoeddus. Mae'r ddau fath o fan agored yn hygyrch i ryw 60% o boblogaeth y ward.
- 3.3 O ran tan-ddarpariaeth yn y ward, y mae prinder penodol o fannau gwyrdd amwynder a mannau gwyrdd naturiol / lled-naturiol.

Cyfarthfa

- 3.4 Mae 28 hectar o fannau agored yn ward Cyfarthfa, a'r mathau mwyaf hygyrch yw caeau chwaraeon awyr agored a pharciau a gerddi cyhoeddus. O ran mynediad, mae 100% a 95% o boblogaeth y ward yn cael eu gwasanaethu gan y mathau hyn o fannau agored, yn ôl eu trefn.
- 3.5 Mae chwe math o fan agored yn ward Cyfarthfa lle nad oes gan fwy na 50% o boblogaeth y ward fynediad; yma'r chwech: coridorau hamdden gwyrdd, mannau gwyrdd amwynder, mannau dinesig, rhandiroedd a mannau tyfu cymunedol, mannau gwyrdd amlswyddogaethol a mannau gwyrdd naturiol / lled-naturiol. Yr achos gwaethaf yw mannau gwyrdd amwynder, lle mae bron i 100% o boblogaeth y ward heb fynediad at y math hwn o fan agored.

Dowlais

- 3.6 Y mae 79 hectar o fannau agored yn ward Dowlais, a'r mathau mwyaf hygyrch o fan agored yw mannau gwyrdd naturiol / lled-naturiol a chaeau chwaraeon awyr agored. Mae'r ddau fath o fan agored yn hygyrch i fwy na 90% o boblogaeth y ward.
- 3.7 Nid oes mannau dinesig yn ward Dowlais, gan olygu bod yn rhaid i drigolion lleol gael fynediad at y math hwn o fan agored y tu allan i'r ward a thu hwnt i'r pellter hygyrch cydnabyddedig. Mae mannau chwarae i blant a phobl ifanc hefyd yn brin: 10% yn unig o'r boblogaeth sydd â mynediad at y math hwn o fan agored.

Gurnos

- 3.8 Mae 28 hectar o fannau agored yn ward Gurnos, a'r mannau mwyaf hygyrch yw parciau a gerddi cyhoeddus a chaeau chwaraeon awyr agored. Mae'r ddau fath o fan agored yn gwasanaethu 100% o boblogaeth y ward.

- 3.9 Ar y llaw arall, y math lleiaf hygyrch yn y ward yw mannau gwyrdd amwynder, gyda phoblogaeth gyfan y ward yn methu â chyrraedd y safon hygyrchedd a osodwyd ar gyfer y math hwn o fan agored.

Ynysowen

- 3.10 Mae 36 hectar o fannau agored yn ward Ynysowen, a'r math mwyaf hygyrch yw coridorau hamdden gwyrdd. Mae gan ryw 95% o'r boblogaeth fynediad at y math hwn o fan agored, yn bennaf am fod Llwybrau Taf a Threvithick yn rhedeg drwy'r ward. Yn ychwanegol, mae tua 75% o'r boblogaeth o fewn y pellter hygyrchedd a argymhellir i barciau a gerddi cyhoeddus.
- 3.11 Er bod hygyrchedd da yn achos rhai mathau o fan agored yn y ward, y mae tandardpariaeth / diffyg hygyrchedd o ran caeau chwaraeon awyr agored, mannau gwyrdd amwynder, mannau chwarae i blant a phobl ifanc a mannau gwyrdd naturiol / lled-naturiol. Llai na 50% o'r boblogaeth sydd â mynediad digonol i'r mathau hyn o fannau agored.

Y Parc

- 3.12 Y mae 88 hectar o fannau agored yn ward y Parc, a'r math mwyaf hygyrch yw parciau a gerddi cyhoeddus a chaeau chwaraeon awyr agored. Y mae'r ddau fath yn hygyrch i 100% o boblogaeth y ward.
- 3.13 Y mae pedwar math o fan agored yn ward y Parc nad ydynt yn hygyrch i fwy na 50% o boblogaeth y ward; sef rhandiroedd a mannau tyfu cymunedol, sydd yn hygyrch i ddim ond 15% o boblogaeth y ward; coridorau hamdden gwyrdd, sy'n hygyrch i ddim ond 35% o boblogaeth y ward; mannau gwyrdd naturiol / lled-naturiol, sy'n hygyrch i ddim ond 50% o boblogaeth y ward; a mannau chwarae i blant a phobl ifanc sy'n hygyrch i ddim ond 20% o'r boblogaeth.
- 3.14 Mae ward y Parc yn ddibynnol iawn ar Barc Cyfarthfa i ateb y rhan fwyaf o'i ofynion o ran mannau agored.

Penydarren

- 3.15 Mae 14.48 hectar o fannau agored yn ward Penydarren, a'r mathau mwyaf hygyrch yw parciau a gerddi cyhoeddus a mannau gwyrdd amlswyddogaethol. Mae'r ddau fath o fan gwyrdd yn hygyrch i 100% o'r boblogaeth.
- 3.16 Mae mannau dinesig a mannau gwyrdd amwynder yn perfformio'n arbennig o wael o gymharu â'r safonau hygyrchedd, gyda dim ond 10% o boblogaeth y ward yn cyrraedd y safonau. Hefyd, nid oes coridorau hamdden gwyrdd yn y ward.

Plymouth

- 3.17 Mae 32 hectar o fannau agored yn ward Plymouth, a'r math mwyaf hygyrch yw mannau gwyrdd amlswyddogaethol a choridoriau hamdden gwyrdd. Mae'r ail o'r rhain yn bennaf am fod Llwybrau Taf a Threvithick yn mynd drwy'r ward. Mae'r ddau fath o fan agored yn hygyrch i ryw 90% o boblogaeth y ward.
- 3.18 Er bod mynediad da i rai mathau o fannau agored yn ward, y mae pum math o fan agored lle nad oes darpariaeth ddigonol yn ward Plymouth, sef: rhandroedd a mannau tyfu cymunedol, mannau dinesig, mannau gwyrdd amwynder, mannau chwarae i blant a phobl ifanc, a pharciau a gerddi cyhoeddus. Llai na 50% o'r boblogaeth sydd â mynediad digonol i'r mathau hyn o fan agored.

Y Dref

- 3.19 Mae 45 hectar o fannau agored yn ward y Dref, a'r math mwyaf hygyrch yw parciau a gerddi cyhoeddus, caeau chwaraeon awyr agored a mannau gwyrdd naturiol / lled-naturiol. Mae'r mathau hyn o fannau agored yn hygyrch i fwy nag 85% o boblogaeth y ward.
- 3.20 Nid oes darpariaeth o randiroedd a mannau tyfu cymunedol yn y ward, ac mae diffyg mynediad i fannau chwarae i blant a phobl ifanc, gyda bron i 60% o boblogaeth ward y Dref heb fynediad i'r math hwn o fan agored oddi mewn i'r pellter a argymhellir.

Treharris

- 3.21 Mae 87 hectar o fannau agored yn ward Treharris, a'r mathau mwyaf hygyrch yw parciau a gerddi cyhoeddus a chaeau chwaraeon awyr agored. Mae'r ddau fath o fan agored yn hygyrch i 100% o boblogaeth y ward.
- 3.22 Y mae prinder yn narpariaeth mannau gwyrdd amwynder, gydag 80% o'r boblogaeth heb fod o fewn y pellter hygyrchedd a argymhellir ar gyfer y math hwn o fan agored. Mae Parc Taf Bargoed yn cynnwys rhywfaint o fan gwyrdd amwynder; fodd bynnag, nid yw'r maint yn ddigon i gyrraedd y safon sy'n ofynnol o ran maint ar gyfer poblogaeth y ward.
- 3.23 Dylid nodi bod Parc Taf Bargoed yn rhoi mynediad i ddewis eang o fannau agored ac yn gyfrifol am ateb y rhan fwyaf o'r gofynion o ran mannau agored yn ward Treharris.

Faenor

- 3.24 Mae 51 hectar o fannau agored yn ward Faenor, a'r math mwyaf hygyrch yw mannau gwyrdd naturiol / lled-naturiol a pharciau a gerddi cyhoeddus. Mae'r ddau fath o fan gwyrdd yn hygyrch i fwy nag 80% o boblogaeth y ward. Y mae mynediad digonol hefyd i fannau gwyrdd naturiol / lled-naturiol oherwydd lleoliad gwledig y ward.
- 3.25 Mae gan ward Faenor fynediad gwael at fannau chwarae i blant a phobl ifanc a mannau gwyrdd amlswyddogaethol, gyda chanran isel iawn o boblogaeth y ward yn byw oddi mewn i'r pellteroedd hygyrchedd a argymhellir. Mae lefel y mannau gwyrdd amwynder hefyd yn isel, gyda dim ond 20% o boblogaeth y ward yn byw oddi mewn i'r pellter hygyrchedd a argymhellir.

4.0 Gweithredu a'r Ffordd Ymlaen

Cyflawni

- 4.1 Bydd y safonau a'r cynigion a gyflwynir drwy'r Strategaeth hon yn helpu i flaenoriaethu'r camau gweithredu a fydd o'r budd mwyaf i drigolion ac yn helpu i ddiwallu anghenion mwyaf sylweddol y Cyngor o ran mannau agored. Ni ddisgwylir y bydd pob un o'r safonau ynghylch mannau agored yn cael eu cyflawni ym mhob lleoliad; bydd rhai ardaloedd lle na fydd hyn yn gyraeddadwy yn sgil patrwm datblygiadau presennol a'r ddaearyddiaeth leol.
- 4.2 Caiff ei gydnabod yn llawn y paratowyd y Strategaeth ar adeg o leihad yn adnoddau'r sector cyhoeddus, ac ni ragwelir y bydd amcanion a safonau'r Strategaeth yn cael eu cyflawni, nac y caiff yr holl gamau gweithredu a argymhellir eu gweithredu, yn y tymor byr. I'r gwrthwyneb, caiff ei gydnabod mai strategaeth tymor canolig i'r tymor hir ydyw, a dim ond pan fydd ffynonellau arian ar gael y bydd llawer o'r argymhellion yn cael eu gweithredu. Ond bydd meddu ar y Strategaeth a'r Cynlluniau Gweithredu yn sicrhau y caiff yr arian, pan fydd ar gael, ei gyfeirio at feysydd o angen a nodwyd lle y gellir gwireddu'r buddion mwyaf.
- 4.3 Rhagwelir y caiff y Strategaeth ei gweithredu drwy amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys yn uniongyrchol gan y Cyngor a thrwy sefydliadau allanol a'u ffynonellau cyllido. Bydd rhwymedigaethau cynllunio drwy Gytundebau Adran 106 a chyllid wedi'i sicrhau drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol hefyd yn cyfrannu tuag at gyflawni'r Strategaeth. Ond bydd lefel ac amseru unrhyw gyfraniadau yn dibynnu ar gyfradd y datblygiadau a ddaw yn eu blaen a'r gallu i sicrhau cyllid drwy'r broses hon.
- 4.4 Gall Cytundebau Adran 106 naill ai sicrhau cyllid neu gyflenwi cyfleusterau'n uniongyrchol i gynorthwyo i liniaru effaith datblygiad. Rhaid i unrhyw rwymedigaeth a sicrheir drwy Gytundeb Adran 106 fod yn uniongyrchol berthnasol i'r datblygiad dan sylw, megis man amwynder neu fan chwarae ar y safle.
- 4.5 Ardoll ar fathau penodol o ddatblygiad newydd yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a godir ar sail fesul metr sgwâr. Gall yr arian a dderbynnir gan y Cyngor gael ei grynhoi i'w wario ar amryw brosiectau seilwaith ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae mwy o hyblygrwydd i gyllid yr Ardoll Seilwaith Cymunedol na chyfraniadau Adran 106 a gellid ei ddefnyddio i weithredu cynlluniau blaenoriaeth mwy o faint a nodwyd yn y Strategaeth hon, os ystyrir bod hynny'n briodol.
- 4.6 Dylid nodi hefyd y gall buddion penodol gael eu gwireddu drwy gamau sy'n golygu gwneud newidiadau bach i ymarferion rheoli sydd â'r potensial o fod yn niwtral o ran cost, neu a allai hyd yn oed arbed costau. Er enghraifft, byddai ardaloedd

penodol o fannau agored yn elwa o lefelau is o dorri gwair, gan arbed arian i'r Cyngor a gwella bioamrywiaeth leol.

Colli Mannau Agored

- 4.7 Mae *Polisi BW16: Diogelu / gwella'r rhwydwaith o gyfleusterau hamdden*, Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful, yn nodi'r meini prawf ar gyfer asesu cynigion datblygu a fyddai'n golygu colli mannau agored. Dyma'r polisi:

Bydd y Cyngor yn diogelu a chynorthwyo gwaith i wella rhwydwaith y Fwrdeistref Sirol o gyfleusterau hamdden gan gynnwys mannau chwarae awyr agored, mannau agored cyhoeddus a llwybrau tramwy cyhoeddus er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gael eu defnyddio ar gyfer hamdden ac amwynder. Ni fydd cynigion datblygu sy'n arwain at golli cyfleuster presennol fel arfer yn cael eu caniatáu oni bai:

- ***Y gall darpariaeth arall sydd o'r un gwerth i'r gymuned leol gael ei ddarparu gerllaw, neu***
 - ***Y gellir dangos bod y ddarpariaeth bresennol yn amhriodol neu y tu hwnt i anghenion y gymuned ac nad yw'n ofynnol mwyach, neu***
 - ***Yn achos cyfleusterau hamdden masnachol, y gellir dangos nad oes defnydd hamdden hyfyw i'r cyfleuster mwyach.***
- 4.8 Caiff y Strategaeth hon ei defnyddio i gyfarwyddo'r defnydd o bolisi BW16, yn benodol mewn perthynas â'r maen prawf cyntaf a'r ail faen prawf. O ran yr ail, bydd man agored sydd y tu hwnt i anghenion y gymuned ond yn bodoli lle y gellir dangos na fyddai colli'r man agored dan sylw yn creu diffyg o ran y safonau a argymhellir (gweler Adran 2) nac yn gwaredu cyfle i fynd i'r afael â diffyg neu angen presennol a nodwyd yn y Strategaeth hon. Ni ddylid colli yr un man agored o'r Strategaeth hyd nes y rhoddir ystyriaeth lawn i ddefnyddiau posibl eraill o'r safle fel man agored er mwyn unioni diffygion a nodwyd yn y ward honno.
- 4.9 Lle y mae'n glir nad yw mannau agored penodol yn gweithredu fel a fwriadwyd, dylid rhoi ystyriaeth yn y lle cyntaf i wneud mân newidiadau i'r man agored i wella sut mae'n gweithredu neu archwilio'r posibilrwydd o newid y defnydd i fod yn fath gwahanol o fan agored. Os na fydd yr un o'r ddau gam hyn yn fuddiol, dylid rhoi ystyriaeth i waredu'r safle. Dylai'r Strategaeth felly gael ei hystyried yn ffordd i gynorthwyo yn y broses benderfynu gan sicrhau y caiff camau i waredu asedau eu cymryd mewn ffordd gytbwys.
- 4.10 Gall fod adegau pan gaiff gwelliannau i fannau agored eu cyflawni drwy ddatblygiad adeiledig ar fan agored. Er y byddai hyn yn arwain at golli rhywfaint o fan agored, byddai'n galluogi mannau agored o ansawdd uwch sy'n cyrraedd y safonau'n well ac yn diwallu'r anghenion a nodwyd yn y Strategaeth hon yn well.

4.11 Mae rhai safleoedd a neilltuwyd ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys mannau agored presennol, megis mannau chwarae i blant a phobl ifanc. Y mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi rhoi ystyriaeth i hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i fannau chwarae gael eu darparu ar y safle yn lle hynny fel rhan o unrhyw ddatblygiad tai newydd (Gweler *Polisi AS17 y Cynllun Datblygu Lleol: Mannau chwarae/chwaraeon awyr agored newydd*). O ystyried bod mannau agored presennol ar safleoedd sydd wedi'u neilltuo ar gyfer tai yn annhebygol o barhau yn eu ffurf bresennol, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Mannau Agored. Ond rhoddir ystyriaeth i'w cynnwys wedi i'r datblygiadau tai gael ei gyflawni ac fel rhan o adolygiad o'r Strategaeth yn y dyfodol.

Y Berthynas rhwng y Strategaeth Mannau Agored a'r Cynlluniau Gweithredu

4.12 Lluniwyd Strategaeth Mannau Agored Merthyr Tudful a'r Cynlluniau Gweithredu gyda'r bwriad y caiff y ddwy ddogfen eu defnyddio ochr yn ochr â'i gilydd. Mae'r Strategaeth yn rhoi trosolwg o'r gwaith cefndirol a wnaed, yn nodi mannau agored o bwysigrwydd lleol, yn pwysleisio'r safle llinell sylfaen o ran darpariaeth mannau agored, ac yn gosod yr amcanion a'r safonau allweddol sydd i'w cyflawni. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Cynlluniau Gweithredu yn rhoi dadansoddiad manylach o bob un o'r 11 ward yn y Fwrdeistref Sirol ac yn gwneud argymhellion o welliannau i safleoedd blaenoriaeth sydd â'r potensial mwyaf i gynorthwyo â'r diffygion a nodwyd. I'w gwneud yn haws i'w defnyddio, mae pob cynllun gweithredu yn dilyn yr un fformat, gan gynnig y mathau canlynol o gamau gweithredu:

-  Creu a gwella mynediad i fannau presennol.
-  Cyflwyno mathau newydd o fannau agored oddi mewn i fannau presennol.
-  Gwneud gwelliant sylweddol strategol i fan agored.
-  Creu mannau agored newydd, yn aml wedi'u darparu fel rhan o ddatblygiad adeiledig.
-  Newid arferion rheoli.

4.13 Mae pob cynllun gweithredu yn cychwyn â chyflwyniad i'r ward, gyda disgrifiad byr o broffil y ward gan bwysleisio'r prif gymunedau, a'r ffeithiau allweddol sy'n helpu i ddeall anghenion y ward am fannau agored, fel y boblogaeth, maint mewn hectarau, cyfanswm yr hectarau o fannau agored yn y ward a'r diffyg presennol o fannau agored mewn hectarau ar draws pob math o fannau agored.

4.14 Gan ddefnyddio data o Gyfrifiad 2011, nodir rhai o'r ystadegau demograffig o bwys ar gyfer y ward, fel grwpiau oedran allweddol sy'n amlwg yn y ward, unrhyw ystadegau ieuchyd nodedig a mynediad at gar. Dewiswyd yr ystadegau hyn oherwydd eu cyswllt rhwng tair thema'r Strategaeth (Iechyd, Economi a'r Amgylchedd), a'r cyswllt rhwng yr ystadegau hyn a'r galw/defnydd tebygol o fannau agored yn y ward. Er enghraifft, disgwyliad y byddai ar ward sydd â nifer fawr o blant

o dan 11 oed angen mwy o fynediad at fannau chwarae i blant a phobl ifanc, na ward lle mae mwy o drigolion hŷn yn byw.

4.15 Caiff materion a chyfleoedd cychwynnol wedyn eu hamlinellu yn y cynlluniau gweithredu; mae'r rhain yn deillio'n bennaf o arsylwadau a wnaed yn ystod gwaith arolygu'r safleoedd ac ystadegau allweddol sy'n nodi'r anghenion.

4.16 Aseswyd darpariaeth mannau agored yn y wardiau yn erbyn y safonau a osodwyd yn Adran 2 uchod, mewn perthynas â:

-  gallu poblogaeth y ward i gael mynediad at fannau agored oddi mewn i bellteroedd diffiniedig,
-  maint y mannau agored,
-  ansawdd y mannau agored.

4.17 O ran mynediad at fannau agored, mae'r Cynlluniau Gweithredu yn nodi canran yr aelwydydd mewn ward benodol sydd â mynediad at bob un o'r mathau o fannau agored. Mae'r Strategaeth a'r Cynlluniau Gweithredu yn cydnabod mai'r ffordd orau i fynd i'r afael â diffygion o ran hygyrchedd yw cyflwyno math penodol o fan agored i fan agored presennol, yn hytrach na chanfod safle newydd sbon. Ond, lle y mae diffyg capasiti neu lle nad oes safle presennol ar gael, argymhellir y caiff safle newydd ei ganfod, os yw'n ddichonadwy.

4.18 Dylid nodi hefyd y gall ychwanegu safle newydd neu gyflwyno math newydd o fan agored i safle presennol wella'r lefel mynediad i boblogaeth ward gerllaw. Yn yr achosion hyn, byddai darparu man agored ychwanegol yn fuddiol i o leiaf ddwy ward ac, o bosibl, i nifer fwy o bobl, gan olygu bod y buddsoddiad y pen yn llai ac yn golygu ei fod yn ddewis mwy darbodus. Mewn achos o'r fath, mae argymhellion y cynllun gweithredu yn tynnu sylw at y safleoedd y tu allan i'r ward a nodwyd.

4.19 Caiff maint mannau agored mewn ward benodol ei fesur yn erbyn maint mannau o fath penodol (mewn hectarau) i bob 1000 o'r boblogaeth. Mae'r Cynlluniau Gweithredu yn dangos, ar ffurf canrannau, y ddarpariaeth bresennol ar gyfer pob math o fan agored ym mhob ward, a gwneir argymhellion i wella maint y ddarpariaeth. Mae'r olaf o'r rhain fel arfer yn golygu argymhellion i ehangu safleoedd presennol, pan fo gwaith o'r fath yn ymarferol ddichonadwy yn unig, yn briodol a lle mae'r gyllideb neu'r cyllid yn bodoli.

4.20 Trafodir y safonau ansawdd a fabwysiadwyr ar gyfer pob math o fan agored yn Adran 2 uchod. Er bod y Cynlluniau Gweithredu yn argymhell cyflawni'r safonau hyn, caiff ei gydnabod nad yw pob safle yn addas ar gyfer pob un o'r gwelliannau a argymhellir, a bod cyflawni'r argymhellion hyn yn dibynnu ar dargedu cyllidebau neu gyllid allanol at safle.

- 4.21 Y gwelliannau a argymhellir ar gyfer safleoedd blaenoriaeth a gyflwynir gan y Cynlluniau Gweithredu yw'r rhai hynny a fydd yn helpu i fynd i'r afael â diffygion presennol ac a fyddai o'r budd mwyaf i'r ward. Darperir map o'r ward ym mhob cynllun gweithredu, sy'n nodi lleoliad pob safle blaenoriaeth yn y ward.
- 4.22 Er bod y safleoedd blaenoriaeth wedi'u nodi fel y rhai sydd â'r potensial mwyaf i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd, y mae lle o hyd i weithredu newidiadau eraill petai anghenion penodol yn codi neu petai dewisiadau cyllido penodol yn pennu lleoliad i'r cyllid gael ei wario. Petai'r sefyllfa hon yn codi, bydd y Strategaeth hon, y Cynlluniau Gweithredu a'r dogfennau ategol yn cynnig sylfaen dystiolaeth fanwl er mwyn gwneud penderfyniad cytbwys ynglŷn â'r math o welliannau sydd eu hangen neu ba fath o fan agored y dylid ei ddarparu.

Atodiad 1

Canllawiau'r Comisiwn dros Bensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig: Camau i baratoi strategaeth mannau agored

Cam 1: Paratoi'r astudiaeth gwmpasu a'r briff	Allbynnau
- sicrhau cefnogaeth aelodau etholedig - diffinio cwmpas a diben y strategaeth - datblygu'r strwythur rheoli ar gyfer paratoi'r strategaeth - pennu adnoddau ar gyfer paratoi'r strategaeth - adolygu'r gwaith a gynhaliwyd hyd yma a'r berthynas â chynlluniau eraill - sicrhau bod GIS ar gael i'w ddefnyddio - cytuno ar strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu - pennu gweledigaeth ddrafft, nodau/amcanion cychwynnol ac amserlen	adroddiad cwmpasu, i gynnwys: - gweledigaeth, nodau ac amcanion rhagarweiniol - strategaeth ymgynghori ar y rhaglen waith
Cam 2: Adolygu'r cynnwys	Allbynnau
- adolygu'r cyd-destun cenedlaethol, rhanbarthol a lleol - nodi nodweddion allweddol yr ardal - adolygu sut caiff mannau agored eu rheoli a'u cyllido	crynodeb o gyd-destun mannau agored lleol
Cam 3: Deall y cyflenwad	Allbynnau
- nodi'r holl fannau agored - categorioidd mannau agored yn ôl swyddogaeth a maint - cynnal archwiliad ar y safle o fannau agored	Cronfa ddata GIS o ddata a gwybodaeth allweddol am fannau agored
Cam 4: Deall y galw a'r angen	Allbynnau
- defnyddio dull cynhwysol i ddeall y galw a'r angen - ystyried gwybodaeth ddemograffig bresennol a gwybodaeth debyg - adolygu gwybodaeth ymgynghori bresennol a chanfod sut i gynnal ymgynghoriadau - ymgynghori ac arolygu i asesu'r galw a'r angen	crynodeb o'r galw a'r angen
Cam 5: Dadansoddi a nodi'r amcanion	Allbynnau
- dadansoddi'r cyflenwad a'r galw - gosod safonau ar gyfer maint, ansawdd a hygyrchedd - nodi meysydd diffygiol a chyfleoedd i'w hunioni - diweddarau themâu, nodau, amcanion a gweledigaeth yng ngoleuni'r gwaith dadansoddi - nodi blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau i fannau agored	- polisiâu cynllunio a rheoli drafft ar gyfer mannau agored - safonau lleol ar gyfer maint, ansawdd a hygyrchedd
Cam 6: Paratoi'r strategaeth a'r cynllun gweithredu	Allbynnau
- paratoi strategaeth ddrafft - paratoi cynllun gweithredu - ymgynghori ar y ddau - cwblhau a mabwysiadu'r strategaeth	- strategaeth ddrafft a chynllun gweithredu - ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth derfynol

Atodiad 2

Nodi Mannau Agored

Wrth gychwyn ar y Strategaeth Mannau Agored, cynhaliwyd archwiliad o'r mannau agored yn ardal yr awdurdod lleol, waeth pwy sydd yn berchen arnynt. Ar ôl ystyried hygrychedd (mynediad ffisegol a chyfyngiadau perchnogaeth / lesddaliad neilltuedig) cafodd rhai safleoedd, defnydd tir a mathau o fannau agored eu heithrio o'r Strategaeth yn sgil natur anhyblyg eu defnydd presennol a/neu gyfyngiadau mynediad.

O ran mynediad, nodwyd tri chategori yn seiliedig ar ddogfen Cyngor Cefn Gwlad Cymru, "Darparu Mannau Gwyrdd Naturiol Hygrych mewn Trefi a Dinasoedd" (Ionawr 2006). Dyma'r tri chategori:

- **Mynediad Llawn i'r Cyhoedd** – Mae mynediad i'r safle yn bosibl heb gyfyngiadau.
- **Mynediad Amodol i'r Cyhoedd** – Mae hawl mynediad i'r cyhoedd yn bodoli sy'n amodol ar un neu ragor o gyfyngiadau neu amodau, neu'n cael ei effeithio gan gyfyngiadau neu amodau o'r fath. Er enghraifft, parc sydd ag oriau agor a gatiau'n cloi ar amserau penodol, ond sydd fel arall ar agor i'r cyhoedd.
- **Dim Mynediad i'r Cyhoedd** – Naill ai nid oes hawl mynediad i'r cyhoedd yn bodoli neu mae'r safle ar agor i unigolion a sefydliadau penodol yn unig. Er enghraifft, safleoedd sydd heb fynediad cyhoeddus ac mewn perchnogaeth breifat, neu safle sydd â lesddaliad at ddefnydd neilltuedig.

Ni chaiff safleoedd sydd â *dim mynediad i'r cyhoedd* eu hystyried yn ddigon hygrych i fodloni anghenion y Strategaeth hon; rhaid i'r safleoedd fod naill ai â mynediad *llawn* neu fynediad *amodol*.

Cafodd rhai mathau neu ddefnydd o dir agored eu heithrio o'r Strategaeth hefyd, a rhoddir y rhesymau am eu heithrio yn y tabl isod.

Math o fan agored	Rhesymau am eu heithrio
Mynwentydd Eglwys / Mynwentydd	Defnyddiau cyfyngedig eraill yn sgil trefniadau ffurfiol y defnydd presennol. Canfyddiad o'r fath safleoedd heb fod at ddant y cyhoedd at ddefnydd hamdden cyffredinol.

Ochrau Dyffryn Serth	Ardaloedd eang o dir sy'n gyfyngedig o ran defnydd oherwydd graddiant. Materion mynediad. Mewn perchnogaeth breifat yn bennaf. Yn cael ei ddefnyddio'n bennaf fel tir pori uchel lle mae'r graddiant yn caniatáu hynny.
Cyrsiau Golff a Chyrtiau Tennis	Defnyddiau cyfyngedig eraill yn sgil trefniadau ffurfiol y defnydd presennol. Mynediad yn aml wedi'i gyfyngu i aelodau. Mynediad wedi'i gyfyngu i oriau agor. Ffi yn aml yn cael ei godi am ddefnyddio'r cyfleuster.
Tir Amaethyddol	Yn gyffredinol mewn perchnogaeth breifat. Cyfleoedd cyfyngedig oherwydd defnydd presennol.
Tir Comin	Gallu cyfyngedig i'w ddefnyddio / rheoli'n ffurfiol Cymdeithasau cominwyr. Materion mynediad.
Caeau Chwarae Ysgolion	Dim ymagwedd gyson ar draws yr ysgolion at wneud cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd. Mynediad cyfyngedig y tu allan i oriau ysgol.

Fodd bynnag, nid yw eithrio'r mathau uchod o fannau agored / defnydd tir o'r Strategaeth yn tynnu oddi wrth werth y safleoedd hyn i bobl Merthyr Tudful. Er nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Strategaeth ar y cam hwn, mae lleoliad y safleoedd hyn wedi'i gofnodi at ddiben cyfeirio. Bydd hyn yn galluogi cyfleoedd yn y dyfodol i nodi ffactorau sy'n atal defnyddio safleoedd heb fynediad i'r cyhoedd, a mynd i'r afael â'r ffactorau hynny lle y bo'n bosibl.

Mae'r mathau o fannau agored sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Mannau Agored wedi'u nodi yn y tabl isod. Rhoddir eu diffiniadau hefyd.

Math o fan agored	Diffiniad
Rhandiroedd	Ardal o dir (sydd yn bennaf ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol) at ddefnydd tyfu cnydau bwyd i'w defnyddio gan y deiliaid neu'u teulu yn unig. Nid yw hyn yn cynnwys gerddi preifat na safleoedd masnachol.
Mannau Gwyrdd Amwynder	I'w gweld yn gyffredin mewn ardaloedd preswyl ar ben terasau neu rhwng adeiladau. Ni ddarperir cyfleusterau, ond y mae'n glir y cânt eu defnyddio gan bobl leol at ddibenion amwynder.
Ardaloedd Dinesig	Ardaloedd cyhoeddus o dirwedd galed yn bennaf sy'n cynnig canolbwynt i weithgarwch pobl ar droed, hynny yw sgwariau, henebion a chofebion.
Coridorau Hamdden Gwyrdd	Llwybrau sy'n cynnwys afonydd, llwybrau beicio, llwybrau tramwys a chyn-linellau rheilffordd, a'r cyfan yn agored i'r cyhoedd. Yn cysylltu gwahanol ardaloedd oddi mewn i drefi ac yn cael eu defnyddio ar gyfer cerdded, beicio neu farchogaeth ceffyl, neu'n cysylltu trefi â chefn gwlad neu barciau gwledig o'u hamgylch. Gall y rhain gysylltu mannau gwyrdd â'i gilydd, neu fynd drwy fannau agored diffiniedig eraill, gan ffurfio rhan o lwybr dynodedig neu strategol yn aml.
Mannau Chwarae Amlswyddogaethol	Ardal sy'n cynnwys dau neu ragor o fathau o fannau agored wedi'u diffinio'n glir. Er enghraifft, offer chwarae ffurfiol a chae chwarae.
Mannau Gwyrdd Naturiol / Lled-naturiol	Ardaloedd o dir heb ei ddatblygu sydd â chynefin naturiol gweddilliol neu sydd wedi'i blannu neu'i gytrefu â llystyfiant a bywyd gwyllt, yn cynnwys ardaloedd o goetir a gwlyptir, yn agored i'r cyhoedd ac yn agos i'r boblogaeth.
Caeau Chwarae / Ardaloedd Chwaraeon Awyr Agored	Ardaloedd mawr a chyffredinol wastad o wair a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer chwaraeon dynodedig, h.y. caeau chwarae; rhaid bod iddynt fynediad agored. Nid ydynt yn cynnwys caeau chwarae sydd â mynediad cyfyngedig, neu at ddefnydd clybiau yn unig.

Mannau Chwarae i Blant a Phobl Ifanc	Ardal ag offer sy'n cynnig cyfleoedd diogel a hygyrch i blant chwarae, yn aml yn gysylltiedig ag ardaloedd o dai. Maent yn cynnwys parciau chwaraeon, ardaloedd 'chwarae rhydd' dynodedig, parciau sglefrfyrddio, ac ardaloedd dynodedig ag offer / llochesi i bobl yn eu harddegau dreulio amser. Mae'r ardaloedd yn aml wedi'u hamgáu. Yn aml yn cynnwys offer chwarae ac ardal o wair wedi'i dorri.
Parciau a Gerddi Cyhoeddus	Ardaloedd o dir, fel arfer wedi'u hamgáu, wedi'u dylunio, adeiladu, rheoli a'u cynnal fel parc neu ardd gyhoeddus; yn aml ag oriau agor.

Ar gyfer pob math o fan agored sydd wedi'i gynnwys yn y Strategaeth, mae'r Cyngor wedi cofnodi lleoliad y man agored a'i arwynebedd mewn hectarau. Ymwelwyd â phob man agored a'i arolygu gan ddefnyddio pro fforma safonol.

Atodiad 3 – Saesneg

Pro Fforma Safle

General Site Information

Ward:		Date:	
Site No:		Weather:	
Site Name:		Surveyed By:	
Typology:		Additional	

Site Access: Does the site have? Full public access ☐ Conditional public access ☐ No public access ☐

Use: Does the site have a specific/obvious use? Yes ☐ No ☐ Reason for discontinuing
(If no; do not proceed and give a reason)

Geography

Topography: What kind of topography does the land occupy?
(Include a brief site description)

Boundary

Boundary: Does the site have a clearly defined boundary treatment? Yes ☐ No ☐

If yes: what does the boundary consist of and on which side does it occur?

N	
S	
E	
W	

Context and land use

Context: In what context is the site located? Urban ☐ Rural ☐ Industrial ☐ Fringe ☐ Other ☐

Land use: What are the neighbouring land uses?
(residential, railway, industrial, river, roads, wasteland etc)

N	
S	
E	
W	

Vegetation & Water

Vegetation Cover: What kind of vegetation is found on the site?

Cut grass	☐	Long grass	☐	Hard	☐	Water	☐	Planted Beds	☐	Veteran Trees	☐
Single trees	☐	Marsh	☐	Scrub	☐	Woodland	☐	Other (specify)	☐		

Vegetation Comments:

Water: Does the site contain any water courses or water bodies? Water body ☐ Watercourse ☐ No ☐

Facilities

Site facilities: Does the site contain any of the following facilities?

Waste facilities	☐	Toilets	☐	Artificial surfaces	☐	Info. Sign	☐	Other	☐
Lighting	☐	Seating	☐	Refreshments	☐	None	☐	Play Equip	☐

Facilities comments:

Access

Roads: Is the site in close proximity to roads? Yes ☐ No ☐

Crossings: If Yes; is there a safe crossing to enable access to the site? Yes ☐ No ☐

Accessibility: Which of the following are barriers to gaining site access?

Steps	☐	Fences	☐	Rough path	☐	Water	☐	Stiles	☐	Kissing gate	☐
Gates	☐	Overgrown	☐	Ramps	☐	None	☐	Other	☐		

Accessibility Comments:

Footpaths: Is the site linked to pavements/highway footpaths? Yes ☐ No ☐

Strategic cycleway: Is the site in close proximity to a strategic footpath / cycleway? Yes ☐ No ☐

Public transport: Is the site within 100 m of a bus stop or bus route? Yes ☐ No ☐

Management

Management: What type of management occurs on site?

Grass cutting	☐	Tree work	☐	Water	☐	Ditch clearance	☐	None	☐
Path clearance	☐	Fence care	☐	Hedge laying	☐	Litter picking	☐	Other	☐

Management comments:

Vandalism: Yes No
Is there vandalism / anti social behavior on the site? ☐ ☐

Vandalism comments:

Erosion / flooding: Yes No	Dogs: Yes No
Is there evidence of erosion, flooding or subsidence? ☐ ☐	Is there evidence of dog fouling? ☐ ☐

Invasive Species:

Variegated Yellow Archangel	☐	Bracken	☐	Japanese Knotweed	☐	Cotoneaster	☐
Giant Hogweed	☐	Himalayan Balsam	☐	None	☐	Unable to distinguish	☐

Incidental Green space: Yes No
Does the site form incidental green space? ☐ ☐

Sensory: Yes No	Sense of place: Yes No
Views: Does the site command expansive views? ☐ ☐	Does the site have a strong sense of place? ☐ ☐

Cultural / Historic: Yes No
Any obvious cultural / historic elements to the site? ☐ ☐

Cultural / Historic Comments

Nature: Does the site have the potential to be used for nature conservation purposes? 0 1 2 3
On a scale of: ☐ ☐ ☐ ☐

Other

Confirm Typology: Does the site concur with the allocated typology? Yes No
 ☐ ☐

Confirm Typology comments

Overall Impression: As an overall impression of the site would you say that it is improving or declining?  Decline Improvement 

 -2 -1 0 1 2
 ☐ ☐ ☐ ☐ ☐

Comments

Atodiad 3b – Cymraeg

Pro Fforma Safle

Gwybodaeth Gyffredinol am y Safle

Ward:

Dyddiad:

Rhif y Safle:

Tywydd:

Enw'r Safle:

Arolygwyd gan:

Teipoleg:

Ychwanegol:

Mynediad i'r Safle: A oes gan y safle?

Fynediad llawn i'r cyhoedd

Mynediad amodol i'r cyhoedd

Dim mynediad i'r cyhoedd

Defnydd: A oes gan y safle ddefnydd penodol/amlwg? Oes Nac oes

Os nad oes, peidiwch â pharhau, a rhowch reswm

Rheswm dros roi'r gorau iddi

Daearyddiaeth

Topograffi: Pa fath o dopograffi sydd i'r tir?
(Rhowch ddisgrifiad cryno o'r safle)

Ffiniau

Ffiniau: A oes gan y safle driniaeth ffiniau wedi'i diffinio'n glir? Oes Nac oes

Os oes: beth yw'r ffin ac ar ba ochr mae'n digwydd?

Gog

De

Dwyr

Gorll

Cyd-destun a defnydd tir

Cyd-destun: Ym mha gyd-destun y mae'r safle wedi'i leoli?

Trefol

Gwledig

Diwydiannol

Ffiniol

Arall

Defnydd tir: Pa ddefnydd sydd i'r tir cyffiniol?
(preswyl, rheilffordd, diwydiannol, afon, ffyrdd, tir diffaith ac ati)

Gog
De
Dwyr
Gorll

Llystyfiant a Dŵr

Llystyfiant: Pa fath o llystyfiant sydd ar y safle?

Gwair wedi'i dorri	Gwair hir	Caled	Dŵr	Gwelyau wedi'i Plannu	Hen Goed
Coed unigol	Cors	Prysg	Coetir	Arall (noder beth)	

Sylwadau ar Lystyfiant

Dŵr: A yw'r safle yn cynnwys unrhyw gyrsiau dŵr neu gyrff dŵr?

Corff dŵr Cwrs dŵr Nac ydy

Cyfleusterau

Cyfleusterau'r Safle: A yw'r safle yn cynnwys unrhyw rai o'r cyfleusterau canlynol?

Cyfleusterau gwastraff	Toiledau	Arwynebau artiffisial	Arwyddion gwybodaeth	Arall
Goleuadau	Seddau	Lluniaeth	Dim	Offer chwarae

Sylwadau am y cyfleusterau:

Mynediad

Ffyrdd: A yw'r safle yn agos at ffyrdd? Ydyn Nac ydyn

Mannau croesi: Os ydynt, a oes man croesi diogel i alluogi pobl i gael mynediad i'r safle?

Oes Nac oes

Hygyrchedd: Pa rai o'r canlynol sy'n rhwystrau i gael mynediad i'r safle?

Grisiau	Ffensys	Llwybr garw	Dŵr	Camfeydd	Gât mochyn
Gatiau	Gordyfiant	Rampiau	Dim	Arall	

Sylwadau am hygyrchedd:

Llwybrau troed: A yw'r safle wedi'i gysylltu â phalmentydd / llwybrau troed priffyrdd?

Ydyn Nac ydyn

Llwybr beicio strategol: A yw'r safle yn agos at lwybr troed / llwybr beicio strategol?

Ydy Nac ydy

Rheoli

Rheoli: Pa fath o reoli sy'n digwydd ar y safle?

Torri gwair	Gwaith coed	Dŵr	Clirio ffosydd	Dim
Clirio llwybrau	Gofalu am ffensys	Gosod cloddiau	Casglu sbwriel	Arall

Sylwadau am reoli:

Fandaliaeth:

A oes fandaliaeth / ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y safle? Oes Nac oes

Sylwadau am fandaliaeth:

Erydu / llifogydd:

A oes tystiolaeth o erydu, llifogydd neu ymsuddo? Oes Nac oes

Cŵn:

A oes tystiolaeth o few ci? Oes Nac oes

Rhywogaethau ymwithiol:

marddanhadlen felen frith	rhedyn	clymog Japan	cotoneaster
efwr enfawr	Jac y neidiwr	dim	Methu â'i adnabod

Mannau gwyrdd digwyddol:

A yw'r safle yn ffurfio man gwyrdd digwyddol: Ydy Nac ydy

Synhwyrdd:

Golygfeydd: A oes golygfeydd helaeth o'r safle? Oes Nac oes

Synnwyr o le: A oes i'r safle synnwyr cryf o le? Oes Nac oes

Diwylliannol / Hanesyddol:

Unrhyw elfennau diwylliannol / hanesyddol amlwg i'r safle?

Oes

Nac oes

Sylwadau am elfennau diwylliannol / hanesyddol

Natur: A oes gan y safle y potensial i gael ei ddefnyddio at ddiben cadwraeth natur?

Ar raddfa o:

0

1

2

3

Arall

Cadarnhau Teipoleg: A yw'r safle yn cyd-fynd â'r deipoleg ddynodedig?

Ydy

Nac ydy

Sylwadau am gadarnhau teipoleg

Argraff Gyffredinol: Fel argraff gyffredinol o'r safle, a ddwedech ei fod yn gwella neu'n dirywio?

Dirywiad

Gwelliant

-2

-1

0


1

2

Sylwadau

Atodiad 4

Enghraifft o fap hygyrchedd ar gyfer mannau chwarae i blant a phobl ifanc yn Ward y Dref



(Noder – Mae'r holl eiddo sydd wedi'u lliwio yn goch yn gorwedd y tu allan i'r safon hygyrchedd ar gyfer mannau chwarae i blant a phobl ifanc)

Atodiad 5


Trosolwg o fannau agored ym mhob ward⁹

Cyflwynir mapiau'r wardiau yn y drefn ganlynol:


- Bedlinog
- Cyfarthfa
- Dowlais
- Gurnos
- Ynysowen
- Y Parc
- Penydarren
- Plymouth
- Y Dref
- Treharris
- Faenor

⁹ Noder bod hawlfraint y mapiau canlynol yn eiddo i'r Goron a hawliau'r cronfeydd data 2015 yn eiddo i Arolwg Ordnans 100025302. Ni chewch ganiatâd i gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw elfen o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.


Ward Bedlinog




Ward Cyfarthfa




Ward Dowlais




Ward Gurnos




Ward Ynysowen




Ward y Parc




Ward Penydarren



Ward Plymouth




Ward y Dref



Strategaeth Mannau Agored Merthyr Tudful



Ward Faenor



Atodiad 6

Crynodeb o'r Sylwadau a Dderbyniwyd mewn Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Strategaeth Mannau Agored Ddrafft ynghyd ag Ymateb y Cyngor ym Mhob Achos

Sylwadau gan:	Cadwch Gymru'n Daclus
Mater dan sylw:	Ceisir eglurhad ar ffiniau Parc Cymunedol Dowlais; ymddangosai fod dryswch ynglŷn â ble lle ddylai'r ffin fod.
Ymateb y Cyngor:	Diffiniwyd ffiniau'r safle drwy gynnwys ardaloedd hygyrch y man agored yn unig. Ni chynhwyswyd y ganolfan gymunedol na'r arglawdd sy'n disgyn i fwrdd i'r gogledd, y gorllewin a'r de.

Newidiadau a argymhellir:Dim.

Sylwadau gan:	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mater dan sylw:	Ceisir eglurhad ynglŷn â pham mai mannau sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol yn unig sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth a bod mathau penodol o fannau agored, fel mynwentydd, heb eu cynnwys.
Ymateb y Cyngor:	Mae'r Strategaeth y cynnwys mannau agored sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol a rhai nad ydynt yn eiddo i'r Awdurdod Lleol gan ddefnyddio meini prawf mynediad llwyr (gweler t36 y Strategaeth). Dylai'r Strategaeth adlewyrchu amodau lleol ac agweddau tuag at fannau agored. Yn lleol, nid yw mynwentydd yn gweithredu fel mannau agored yn y cyd-destun lleol yn y ffordd y maent, efallai, mewn rhai ardaloedd trefol mwy o faint neu yng nghanol dinasoedd. Dewiswyd mannau agored sy'n agos at ganolfannau poblogaeth presennol a pha mor hygyrch ydynt.

Newidiadau a argymhellir:Dim.

Sylwadau gan:	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mater dan sylw:	Ceisir eglurhad ynglŷn â'r rhesymau dros ddefnyddio safonau 2006 ar gyfer Mannau Gwyrdd Hygyrch ac nid safonau presennol Cyfoeth Naturiol Cymru.
Ymateb y Cyngor:	Ar adeg paratoi'r safonau lleol ar gyfer hygyrchedd, nid oedd Safonau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gael. Caiff y safonau newydd eu hymgorffori fel rhan o'r adolygiad pedair blynedd o'r Strategaeth Mannau Agored.

Newidiadau a argymhellir:Dim.

Sylwadau gan:	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mater dan sylw:	Cymeradwyir y Strategaeth am ei dull manwl yn seiliedig ar safonau, a gellir ei defnyddio yn fodel gan awdurdodau eraill sy'n dymuno mabwysiadu dull strategol i ddarparu mannau agored.
Ymateb y Cyngor:	Croesawir sylwadau cefnogol gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Newidiadau a argymhellir:Dim.

Sylwadau gan:	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mater dan sylw:	Ystyried i adolygiadau yn y dyfodol gynnwys tir sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus eraill neu sefydliadau elusennol lle gallai'r cyhoedd ddisgwyl cael mynediad.
Ymateb y Cyngor:	Ystyriwyd mannau agored mwy o faint sydd yng ngofal gyrff cyhoeddus eraill ar gam cynnar ond penderfynwyd peidio â'u cynnwys bryd hynny am nad oeddynt yn ddigon agos i ganolfannau poblogaeth ac felly barnwyd nad oeddynt yn hygyrch.

Newidiadau a argymhellir:Dim.

Sylwadau gan:	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mater dan sylw:	Angen nodi cysylltiadau posibl rhwng mannau agored a choridoriau llinol/gwyrdd a llwybrau troed / beicio gwyrdd / diogel / oddi ar y ffordd.
Ymateb y Cyngor:	Ystyriwyd hyn wrth lunio'r Strategaeth ond penderfynwyd peidio â'i gynnwys ar y cam hwnnw gan ei fod y tu allan i gwmpas y Strategaeth. Ond ystyriwyd ei fod yn gynnyrch eilaidd y gellid ei ddatblygu ar ôl mabwysiadu'r Strategaeth.
Newidiadau a argymhellir:	Dim.

Sylwadau gan:	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mater dan sylw:	Gellid cyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
Ymateb y Cyngor:	Ceir cyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y ddogfen Adolygiad Polisi y cyfeirir ati yn y Strategaeth Mannau Agored ac sydd ar gael ar gais.
Newidiadau a argymhellir:	Dim.

Sylwadau gan:	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mater dan sylw:	Mae angen gofal wrth adeiladu ar fan agored a dylid ystyried newidiadau i'r man agored fel dewis cyntaf.
Ymateb y Cyngor:	Mae'r Cyngor yn cydnabod pryder ynglŷn â datblygu ar fan agored, ond ystyrir mai yn niffyg dim arall y gwneir hyn ac ystyrir mai'r angen i wella'r man agored presennol yw'r flaenoriaeth gyntaf. Lle mae gormod o fath penodol o fan agored, gallai fod achos i waredu un safle er budd safle arall a allai ateb y galw yn fwy priodol, er enghraifft o ran mynediad daearyddol.
Newidiadau a argymhellir:	Dim.

Sylwadau gan:	Cyfoeth Naturiol Cymru
----------------------	------------------------

Mater dan sylw:	Awgrymir y gallai Crynodeb Gweithredol o'r Strategaeth fod yn ddefnyddiol, gan dynnu sylw at brif negeseuon pob adran.
Ymateb y Cyngor:	Mae'r Cyngor yn cydnabod manteision Crynodeb Gweithredol ac yn argymhell llunio un i fod ar gael ochr yn ochr â'r Strategaeth Mannau Agored.
Newidiadau a argymhellir:	Er na argymhellir newidiadau i'r Strategaeth, y mae crynodeb gweithredol wedi'i lunio, a bydd ar gael ochr yn ochr â'r Strategaeth.

Sylwadau gan:	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mater dan sylw:	Byddai'n fuddiol edrych ar olwg strategol ar gyfer targedu wardiau mwy difreintiedig sydd â mwy o angen gweithredu nag eraill yn achos mathau penodol o ddarpariaeth.
Ymateb y Cyngor:	Lluniwyd y Cynlluniau Gweithredu i fynd i'r afael â diffygion mewn mathau penodol o fannau agored ym mhob ward drwy nodi safleoedd blaenoriaeth. Mae'r wybodaeth ystadegol yn y Papurau Cefndirol yn darparu tystiolaeth o'r angen. Y mae'n go glir ym mha wardiau y mae'r angen mwyaf er nad mater o hygyrchedd a maint yn unig ydyw – y mae'n fater o ansawdd hefyd. Wrth flaenoriaethu'r safleoedd, y nod yw mynd i'r afael â hyn drwy gydweithio â chymunedau ar bob safle blaenoriaeth yn unol â chanllawiau'r Faner Werdd. Gellir rhoi mwy o flaenoriaeth i safleoedd mewn wardiau mwy difreintiedig drwy dargedu adnoddau a dylid rhoi ystyriaeth bellach i ba mor briodol yw'r dull hwn o weithredu mewn cydweithrediad â Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o'r blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Llesiant Lleol.

Newidiadau a argymhellir: Dim.

Sylwadau gan:	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mater dan sylw:	Pryder nad yw'r cyfeiriadau at liniaru ac addasu mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd, y cyfeirir atynt fel swyddogaethau mannau agored, yn derbyn sylw digonol ym mhrif gorff testun y ddogfen.
Ymateb y Cyngor:	Er y cyfeirir at faterion newid hinsawdd yng nghorff y testun, nid yw hon yn flaenoriaeth bennaf yn y Strategaeth hon. Ond cydnabyddir bod cyfleoedd i ehangu ar hyn er mwyn esbonio buddion mannau agored yn y cyd-destun hwn.
Newidiadau a argymhellir:	Ychwanegu'r frawddeg hon ar ddiwedd paragraff 1.7 y Strategaeth Mannau Agored fel ei fod yn darllen: Mewn perthynas â'r elfen olaf hon, gall coed a llystyfiant leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy amsugno carbon deuocsid o'r atmosffer. Gallant hefyd wella effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy anwedd-drydarthiad a chysgodi uniongyrchol, a helpu i ymdopi â'r achosion cynyddol o law trwm sydyn drwy leihau dŵr ffo a chynyddu faint o ddŵr glaw sy'n cael ei ddal.

Sylwadau gan:	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mater dan sylw:	Ystyried gosod y pedwar o barciau a gerddi mawr yn yr un safon â pharciau a gerddi strategol, ac egluro sut/ble fyddai hyn yn cael ei gyflawni a ph'un a yw'n safon gyflawnadwy.
Ymateb y Cyngor:	Ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso safon y parciau a'r gerddi strategol i'r pedwar o barciau a gerddi mawr am eu bod yn diwallu anghenion gwahanol o ran mannau agored. Mae'r parciau a'r gerddi strategol yn diwallu anghenion trigolion y Fwrdeistref Sirol yn ogystal â thrigolion ardaloedd cyfagos ehangach ac ymwelwyr o bell, tra bo'r parciau a'r gerddi mawr yn bennaf yn diwallu anghenion trigolion y Fwrdeistref Sirol mewn ffordd debyg i'r hyn a wneir gan barciau a gerddi lleol. Mwy priodol felly yw cymhwyso safon y parciau a'r gerddi bach i'r pedwar o barciau a gerddi mawr, a dyma'n wir a wnaed wrth gyfrifo maint y ddarpariaeth bresennol o barciau a gerddi cyhoeddus ar lefel ward. Dylid diwygio'r Strategaeth Mannau Agored i egluro'r safon ofynnol o ran maint ar gyfer parciau a gerddi mawr.
Newidiadau a argymhellir:	Diwygio paragraff 2.57 y Strategaeth Mannau Agored i ddarllen: Gosodwyd y safonau maint gofynnol fel a ganlyn: • Parciau a Gerddi Strategol: 2.04 hectar i bob 1000 o'r boblogaeth • Parciau neu Erddi Cyhoeddus Bach a Mawr: 0.54 hectar i bob 1000 o'r boblogaeth

Sylwadau gan:	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mater dan sylw:	Yn y Saesneg, dylai brawddeg olaf paragraff 3.4 ddarllen 'respectively' nid 'respectfully'.
Ymateb y Cyngor:	Cydnabyddir y gwall ac mae angen gwneud diwygiad bach i'r testun.
Newidiadau a argymhellir:	Diwygio brawddeg olaf paragraff 3.4 yn fersiwn Saesneg Strategaeth Mannau Agored i ddarllen: 'In terms of access, 100% and 95% of the ward's population are served by these types of open space respectfully respectively .'

Sylwadau gan:	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mater dan sylw:	Ni ddylid eithrio cyn-weithiau mwynau.
Ymateb y Cyngor:	Nid yw cyn-weithiau mwynau wedi'u heithrio o'r Strategaeth Mannau Agored. Mae nifer o enghreifftiau o safleoedd a arferai fod yn waith mwynau neu sydd wedi'u hadfer ers hynny. Dim ond os nad oeddynt yn cyrraedd y meini prawf mynediad y cafodd safleoedd eu heithrio.

Newidiadau a argymhellir:Dim.

Sylwadau gan:	Cadw
Mater dan sylw:	Mae nifer o Henebion Rhestredig yn gorwedd o fewn mannau agored a byddem yn croesawu eu cynnwys yn y Strategaeth Mannau Agored, a darpariaeth mynediad cyhoeddus iddynt.
Ymateb y Cyngor:	Cafodd pob man agored yn y Strategaeth eu cynnwys am eu bod yn darparu mynediad; felly y mae mynediad i'r holl Henebion Rhestredig sydd yn gorwedd mewn mannau agored. Yr unig ffordd i fynd i'r afael â'r mater o ddehongliad dan sylw yw drwy Ansawdd Mannau Agored a gaiff ei ystyried drwy ffurfio Fframweithiau Rheoli Drafft ar gyfer safleoedd blaenoriaeth, sy'n cynnwys dehongli fel rhan o hynny.

Newidiadau a argymhellir:Dim.

Sylwadau gan:	Cadw
----------------------	------

Mater dan sylw: Argymhellir bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o asedau dynodedig ym mhob man agored.

Ymateb y Cyngor: Caiff yr holl ddata ynglŷn â mannau agored eu cadw ar haen ar y GIS. Y mae data wedi'i fapio ynglŷn ag asedau dynodedig a Henebion Rhestredig hefyd ar gael fel haen GIS er mwyn ymgynghori ac archwilio pob safle. Mae'r data hwn yn gofnod amgylchedd hanesyddol cyfredol, sy'n cynnwys diweddariadau rheolaidd gan GGAT. Mae'r Fframweithiau Rheoli Drafft yn defnyddio'r data hwn wrth awgrymu newidiadau dylunio i'r modd y caiff safle ei reoli. Annhebygol iawn, felly, yw na fyddem yn ymwybodol o asedau o'r fath.

Newidiadau a argymhellir:Dim.

Sylwadau gan: Cadw

Mater dan sylw: Argymhellir bod Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ymgynghori â Cadw ynglŷn â rheoli Henebion Rhestredig unigol i sicrhau bod cydbwysedd rhwng mynediad i'r cyhoedd a'u cadwraeth.

Ymateb y Cyngor: Nodwyd.

Newidiadau a argymhellir:Dim.

Sylwadau gan: Cadw

Mater dan sylw: Mewn perthynas â pharciau a gerddi hanesyddol, mae Castell Cyfarthfa a rhan o'r safle cofrestredig yn Aberfan yn rhan o gwmpas y Strategaeth Mannau Agored. Byddai Cadw yn croesawu cyfathrebu pellach wrth ystyried unrhyw newidiadau i elfennau o barciau a gerddi hanesyddol, fel coed a phlannu, strwythurau a nodweddion hanesyddol, a gosodiad.

Ymateb y Cyngor: Nid oes cynlluniau cyfredol i wneud newidiadau i barciau a gerddi hanesyddol o dan y Strategaeth Mannau Agored, ond byddai unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn cael eu cynnal mewn ymgynghoriad â Cadw.

Newidiadau a argymhellir:Dim.

Sylwadau gan:	Cyfeillion Saron
Mater dan sylw:	Cais i gynnwys ‘mynwentydd eglwys a mynwentydd’ yn fannau agored yn y Strategaeth Mannau Agored.
Ymateb y Cyngor:	Mae mwyafrif y mynwentydd yn dal i fod yn weithredol ac felly ni fyddent yn cyd-fynd â'r canfyddiad ohonynt yn cael eu defnyddio er hamdden. Mae'r safleoedd hŷn, hynny yw mynwentydd capeli llai fel Saron, yn annhebygol byth o fod dan fygythiad datblygu ac mae'n fwy o fater o annog a chynorthwyo rhaglen weithgar o reoli am resymau diwylliannol a bioamrywiaeth i sicrhau eu bod yn goroesi.

Newidiadau a argymhellir:Dim.

Sylwadau gan:	Cartrefi Cymoedd Merthyr
Mater dan sylw:	Cais i eithrio rhannau dwyreiniol a gorllewinol y safle canlynol o'r Strategaeth: ID168 Cefn Ysbyty'r Tywysog Siarl.
Ymateb y Cyngor:	Mae'r rhannau arfaethedig i'w heithrio yn ffurfio rhan o grŵp strategol o fannau sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd i ffurfio man agored llinol. Byddai diwygiad i eithrio'r rhannau hyn yn lleihau arwyddocâd y man agored ac yn disbyddu ward Gurnos ymhellach ac felly'n effeithio ar faint y mannau agored ac yn bwysicach ar ansawdd sut gallai'r man agored gysylltu ar draws rhan ogleddol y ward.

Newidiadau a argymhellir:Dim.

Sylwadau gan:	Cartrefi Cymoedd Merthyr
Mater dan sylw:	Cais i ddiwygio ffiniau ID66 Man Chwarae Gellideg.
Ymateb y Cyngor:	Mae'r diwygiad i'r man agored hwn yn rhesymol gan fod caniatâd cynllunio wedi'i roi yn ddiweddar i ddatblygiad ar ran o'r man agored.

Newidiadau a argymhellir:Diwygio Cynllun Gweithredu Cyfarthfa a'r Map o'r Ward i adlewyrchu'r ffin ddiwygiedig.

Sylwadau gan: Cartrefi Cymoedd Merthyr

Mater dan sylw: Cais i ddiwygio ffiniau ID117 Pant Hollow.

Ymateb y Cyngor: Gall y diwygiad i'r man agored hwn gael ei wneud, ond yn unol yn unig â'r man agored diffiniedig presennol a ddynodwyd yn bresennol yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Newidiadau a argymhellir: Diwygio Cynllun Gweithredu Dowlais a'r Map o'r Ward i adlewyrchu'r ffin ddiwygiedig.

Sylwadau gan: Cartrefi Cymoedd Merthyr

Mater dan sylw: Cais i waredu ID270 Forsythia Close.

Ymateb y Cyngor: Bydd colli'r man agored hwn yn arwain at golli Man Gwyrdd Naturiol a Lled-naturiol yn ward Gurnos a fydd yn gwaethgu'r cyflenwad sydd eisoes yn wael ac sydd eisoes yn is na'r safon a osodwyd, felly nid oes modd cyfiawnhau ei waredu.

Newidiadau a argymhellir: Dim.

Sylwadau gan: Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru

Mater dan sylw: Cais i greu o leiaf un Warchodfa Natur Leol ym mhob ward ar y sail y caiff un safle blaenoriaeth ei hystyried yn Warchodfa Natur Leol.

Ymateb y Cyngor: Bydd y Cyngor yn archwilio'r posibilrwydd o greu Gwarchodfeydd Natur Lleol ar y safleoedd a awgrymir; bydd hyn yn ddibynnol ar ganlyniad blaenoriaethau'r anghenion a nodir ym mhob Cynllun Gweithredu. Bydd pob man agored yn cyflwyno cyfleoedd priodol lle y mae'r amodau yn caniatáu i greu Gwarchodfa Natur Leol, ar sail achos wrth achos, ac yn cael eu hystyried i'w cynnwys fel Gwarchodfa Natur Leol.

Newidiadau a argymhellir: Dim.